



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori: Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Ardoll Ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol

Asesiad Effaith Rheoleiddiol Rhannol

Dyddiad cyhoeddi: 20 Medi 2022

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 13 Rhagfyr 2022

Teitl y cynnig

Cynnig ynglŷn â phwerau i godi ardoll lleol ar dwristiaeth ("ardoll ymwelwyr").

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar gynigion Llywodraeth Cymru i roi pwerau disgresiynol i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr yn eu hardaloedd. Yn benodol, mae'r ymgynghoriad yn gofyn am eich adborth ar yr opsiynau posibl ar gyfer dylunio ardoll ymwelwyr. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn galluogi awdurdodau lleol i gyflwyno ardoll yn eu hardaloedd os dymunant.

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	5
Terminoleg a Diffiniadau	6
Diffiniadau	6
Manteision arfaethedig.....	6
Ardollau ymwelwyr rhyngwladol	6
Effeithiau ariannol posibl.....	7
Datblygu ein dealltwriaeth	7
Ystyriaethau allweddol	8
Dull gweithredu a'r camau nesaf.....	8
Cyd-destun Ardoll Ymwelwyr	10
Amcanion	10
Cefndir	10
Ymgynghori ac Ymgysylltu.....	12
Y cyd-destun economaidd presennol.....	13
Sectorau a grwpiau yr effeithir arnynt gan ardoll ymwelwyr	13
Meintioli costau a manteision	14
Tybiaethau allweddol	14
Adolygiad o dystiolaeth ynglŷn ag elastigeddau sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru.....	18
Diffiniadau:	18
Crynodeb:	18
Canfyddiadau Allweddol	18
Rhyngweithio â threthi eraill y DU	20
Opsiynau polisi at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol rhannol hwn	20
Opsiynau ar gyfer fframwaith	21
Gweithredu - Rhoi Ardoll ar Waith.....	21
Gweithredu - Gweinyddiaeth.....	22
Opsiynau ar gyfer y fframwaith treth	23
Dadansoddiad o'r Opsiynau	25
Opsiwn 1: Gwneud dim – “Busnes fel arfer” – nid oes gan unrhyw awdurdod y pŵer i gyflwyno ardoll ymwelwyr.....	25
Tabl 2: Crynodeb o'r sefyllfa bresennol.....	26
Opsiwn 2: Mwy o gysondeb	28

Tabl 3: Costau a manteision ar gyfer Opsiwn 2, mwy o gysondeb (llai o annibyniaeth leol).....	29
Opsiwn 3: Mwy o annibyniaeth leol.....	35
Tabl 4: costau a manteision ar gyfer Opsiwn 3, mwy o annibyniaeth leol.....	36
Cymharu opsiynau	42
Tabl 5: Trosolwg o effaith yr is-opsiynau ynglŷn â math o gyfradd	48
Model Gweithredu: Opsiynau gweithredu – modelau lleol a chanoledig (dangosol)	53
Tabl 6: Opsiynau gweithredu – modelau lleol a chanoledig (dangosol)	54
Effeithiau Ehangach	57
Asesu'r gystadleuaeth.....	57
Effeithiau eraill	57
Mesurau Lliniaru	57
Llesiant cymdeithasol.....	58
Prawfesur gwledig.....	59
Effeithiau ar iechyd	59
Cydraddoldebau.....	60
Hawliau plant	61
Llesiant diwylliannol a'r Gymraeg.....	61
Llesiant economaidd	62
Llesiant amgylcheddol	63
Anfantais economaidd-gymdeithasol	64
Crynodeb.....	64
Atodiad A – Tabl o Gymaryddion Rhyngwladol	65
Atodiad B - Ymgysylltu ynglŷn â'r Ardoll Ymwelwyr.....	75
Atodiad C – Rhestr o ffynonellau.....	77

Crynodeb gweithredol

Un o ymrwymïadau allweddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru¹ yw 'cyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll twristiaeth'. Mae hwn hefyd yn un o'r meysydd a grybwyllir yn y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i Gytundeb Cydweithio i gyflwyno ymrwymïadau polisi sy'n cyd-fynd â buddiannau cyffredin². Mae'r gwaith ar yr ardoll ymwelwyr wedi cael ei ddatblygu drwy'r cytundeb hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori er mwyn llywio cynigion ar gyfer pwerau disgresiynol sy'n galluogi awdurdodau lleol i godi ardoll ymwelwyr. Byddai'r math o ardoll rydym yn ymgynghori yn ei gylch yn gymwys i arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol. Mae 'ardoll ymwelwyr' neu 'treth dwristiaeth' yn syniad sydd wedi cael ei gynnig droeon dros y blynyddoedd er mwyn mynd i'r afael â'r costau i awdurdodau lleol wrth ddarparu ar gyfer ymwelwyr sy'n defnyddio gwasanaethau a seilwaith lleol.

Cafodd yr awgrymiadau ar gyfer 'treth dwristiaeth' eu datblygu'n gynigion a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn ar gyfer treth leol sy'n seiliedig ar ardoll ymwelwyr lleol dewisol i'w godi gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Rydym wedi galw'r dreth leol newydd hon yn 'ardoll ymwelwyr' am ein bod yn cydnabod y gall y term 'twristiaeth' gael ei ddehongli'n gul fel twristiaid hamdden. Mae'r term 'ymwelydd' yn un ehangach. Gwneir hyn er mwyn cydnabod bod amrywiaeth eang o resymau dros ymweld ag ardal leol y tu hwnt i ddiben 'gwyliau' ac felly ystyrir y defnydd posibl o ardoll ar gyfer arosiadau o'r fath yn yr ystyr ehangach yn yr ymgynghoriad hwn.

Bydd yr ymgynghoriad yn llywio'r broses o ddatblygu dyluniad yr ardoll ac yn helpu Llywodraeth Cymru i ystyried yr effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl yn fanylach. Bydd yn fodd i amrywiaeth o ymatebion gael eu hystyried cyn i unrhyw benderfyniadau terfynol gael eu gwneud ynglŷn â dyluniad yr ardoll arfaethedig a'r ffordd y bydd yn gweithredu.

Mae compendiwm o ddata yn ymwneud â'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r dogfennau hyn er mwyn rhoi mwy o gyd-destun.

¹ [Llywodraeth Cymru - Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad](#)

² [Y Cytundeb Cydweithio \(gov.wales\)](#)

Terminoleg a Diffiniadau

Ardoll - Defnyddir y termau 'ardoll' a 'treth' yn gyfnewid am ei gilydd drwy'r ddogfen gyfan hon. Rydym yn cynnig y dylid cyflwyno treth leol newydd y cyfeiriwn ati fel 'ardoll ymwelwyr'. Diffinnir y term ardoll gan Cambridge Dictionary fel a ganlyn:

'an amount of money, such as a tax, that you have to pay to a government or organization.'³

Diffiniadau

Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol rhannol hwn yn defnyddio'r un diffiniadau â'r ymgynghoriad a dylid cyfeirio at yr adran diffiniadau yn yr ymgynghoriad yn hyn o beth.

Manteision arfaethedig

- Byddai ardoll yn golygu y byddai ymwelwyr o Gymru a mannau eraill yn gwneud cyfraniad bach i helpu i gynnal gwasanaethau a seilwaith lleol, a hybu tegwch rhwng trigolion ac ymwelwyr o ran sut y caiff y rhain eu hariannu. Mae gwasanaethau a seilwaith lleol yn bwysig nid yn unig i'r rhai sy'n ymweld, ond hefyd i drigolion a busnesau fel ei gilydd.
- Cynigir y dylid cyflwyno ardoll i gefnogi dyfodol lleoliadau twristiaid drwy hyrwyddo dull mwy cynaliadwy o ymdrin â thwristiaeth⁴. Mae angen arian ar ardaloedd lleol a rhanbarthau i gynnal seilwaith a gwasanaethau gweithredol i gymunedau lleol ac ymwelwyr. Gall ardollau ymwelwyr helpu i reoli cyrchfannau mewn ffordd arloesol a chynaliadwy.
- Gall fod effaith gadarnhaol ar ganfyddiadau ymwelwyr drwy fanteision amlwg sy'n deillio o ddefnyddio'r refeniw. Mae nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus yn rhan annatod o brofiad ymwelwyr – gallai'r refeniw o ardoll gyfrannu at helpu i barhau i'w hariannu. Gallai ardoll gefnogi a gwella cyrchfannau ymwelwyr er mwyn eu hannog i ddychwelyd dro ar ôl tro.
- Gallai ardoll rymuso awdurdodau lleol i wneud eu penderfyniadau eu hunain yn unol ag anghenion eu cymunedau. Byddai ardoll yn cefnogi mwy o ddarpariaeth ac annibyniaeth leol. Mater i'r awdurdod lleol perthnasol fyddai penderfynu sut i ddefnyddio'r arian a godir drwy'r ardoll.

Ardollau ymwelwyr rhyngwladol

Mae twristiaeth yng Nghymru yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi. Gwnaed mwy na 90 miliwn o ymweliadau â Chymru yn 2019, gan arwain at gyfanswm gwariant o £5.9 biliwn. Roedd 10 miliwn o'r ymweliadau hyn yn cynnwys aros dros nos, gan arwain at wariant o fwy na £2 biliwn ^{5,6}.

³ [LEVY | meaning in the Cambridge English Dictionary](#)

⁴ 'Tourism that takes full account of its current and future economic, social and environmental impacts, addressing the needs of visitors, the industry, the environment and host communities.' Sefydliad Twristiaeth y Byd [Sustainable development | UNWTO](#)

⁵ Nid yw data mwy diweddar ar gyfaint na gwerth twristiaeth ar gael am fod ystadegau swyddogol ynglŷn â thwristiaeth ddomestig wedi'u hatal dros dro ar hyn o bryd. Mae'n bwysig nodi y bydd y perfformiad twristiaeth presennol yn wahanol i'r ffigurau hyn ond bydd ar gael ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol.

⁶ [Perfformiad Twristiaeth yng Nghymru, rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2019 \(llyw.cymru\)](#)

Defnyddir ardollau ymwelwyr gan lawer o wledydd dros y byd i gyd ac mae'r defnydd a wneir ohonynt yn cynyddu. Mae ardollau ymwelwyr ymhell o fod yn rhywbeth newydd, gyda llawer o gyrchfannau poblogaidd i dwristiaid yn Ewrop yn codi ardoll. Ar hyn o bryd, mae'r tair gwlad Ewropeaidd fwyaf poblogaidd ymhlith ymwelwyr (Ffrainc, Sbaen a'r Eidal) i gyd wedi cyflwyno amrywiaeth o daliadau a godir⁷. Hefyd, mae Llywodraeth yr Alban wedi nodi ei bwriad i ailddechrau ymgysylltu ynglŷn â'i chynigion ar gyfer 'ardoll ymwelwyr byrharhosol' ddewisol a fyddai'n rhoi disgrisiwn i gynghorau lleol yn yr Alban godi ardoll ar ymwelwyr.

Mae pob gwlad yn dylunio ei threth dwristiaeth mewn ffordd wahanol, ond, fel arfer, caiff trethi dinas a threthi lleol eu codi am arosiadau dros nos. Hefyd, gall trethi a godir amrywio yn ôl y tymor, graddau sêr llety ac ardaloedd o fewn cyrchfan. Y prif fathau o dâl a godir yw:

- Cyfradd fesul ystafell/llety fesul noson
- Cyfradd fesul person fesul noson
- Canran o'r tâl am lety.
- Fersiwn gyfunol o'r opsiynau uchod.

Effeithiau ariannol posibl

Mae amcangyfrifon rhagarweiniol yn awgrymu y gallai ardoll ymwelwyr o £1 fesul person fesul noson ar lety ymwelwyr a osodir yn fasnachol yng Nghymru godi tua £30 miliwn y flwyddyn, a rhagwelir refeniw tebyg o ardoll a bennir ar tua 3 i 4 y cant o'r tâl am lety⁸.

Mae'n bosibl y byddai ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol ond yn cael effaith gymharol fach ar wariant twristiaid. Byddai tâl o £1 fesul ystafell fesul person am arhosiad arferol â'r DU gan ymwelydd Ewropeaidd yn hafal i gynnydd o 1 y cant yn ei wariant cyfartalog (yr arhosiad arferol yw pum noson a chaiff £451 ei wario yn ystod yr ymweliad ar gyfartaledd – gan nodi bod y ffigur cyfartalog hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017 a 2021)⁹. Er mwyn rhoi hyn yn ei gyd-destun, mae'n cyfateb i werth y bunt o'i chymharu â'r ewro yn cryfhau ychydig dros 1 y cant (nad yw'n amrywiad anghyffredin) ac felly leihau pŵer prynu'r ymwelydd Ewropeaidd¹⁰.

Datblygu ein dealltwriaeth

Mae nifer o ganlyniadau anfwriadol posibl y bydd angen eu hystyried hefyd wrth ddatblygu ardoll ymwelwyr.

Drwy ddatblygu'r asesiad effaith cychwynnol hwn, rydym yn gobeithio defnyddio gwybodaeth a phrofiad lleol y sector, awdurdodau lleol a'r cyhoedd i'n helpu i gasglu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddatblygu ein dealltwriaeth.

⁷ [ETOA's 2019 review of European tourism taxes calls for destinations to recognise the value of the visitor economy and risk to competitiveness - ETOA - Cymdeithas Twristiaeth Ewrop | dros 1,200 o aelodau: ETOA – Cymdeithas Twristiaeth Ewrop | dros 1,200 o aelodau](#)

⁸ 'Preliminary estimates of potential 'tourism tax' revenues in Wales', Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cymru gan London Economics (LE) Wales, Ebrill 2021. (Oherwydd prinder data ar ystafelloedd mewn gwahanol gategorïau yng Nghymru, nid ymchwiliodd LE Wales i dreth fesul ystafell/llety fesul noson.)

⁹ [5.86 Tourism tax briefing_02.pdf \(local.gov.uk\)](#)

¹⁰ [Travel trends estimates: overseas residents in the UK - y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

Ystyriaethau allweddol

Wrth ddylunio ardoll ymwelwyr bydd angen ystyried y canlynol:

- Economeg ardoll ymwelwyr. Mae cyflwyno ardoll yn cynyddu pris ymweliad. Gall newidiadau mewn prisiau effeithio ar ymddygiad gwariant ymwelwyr, ond mae graddau a maint y newidiadau ymddygiadol hyn yn anhysbys ac yn dibynnu ar ffactorau sy'n cynnwys faint o ardoll a godir.
- Materion ymarferol sy'n ymwneud â chodi arddoll ymwelwyr e.e. sut y bydd ymwelwyr yn talu'r ardoll, sut y bydd busnesau yn rheoli'r ardoll, a pha sefydliad fydd yn casglu'r ardoll.
- Gweinyddu ardoll. Un her weinyddol yw'r twf yn yr economi rhannu – megis Airbnb – sydd wedi tarfu ar y farchnad ar gyfer llety twristiaeth. Byddai'n annheg codi ardoll ar lety mwy traddodiadol ond nid newydd-ddyfodiaid yn y farchnad, gan y byddai hyn yn ystumio cystadleuaeth. Ond cyfyd cwestiwn ynglŷn â sut y gellir gorfodi newydd-ddyfodiaid yn y farchnad i gydymffurfio.¹¹
- Disgwyli'r byddai'r ardoll ymwelwyr a gynigiwn drwy'r ymgynghoriad yn debyg i fodel TAW o ran y ffordd y mae'n gweithredu. Byddai'n ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr godi ardoll gan ymwelwyr a'i gasglu, ond nid yw hyn yn debygol o fod yn dasg feichus o ystyried y cyfrifiad cymharol syml y byddai angen ei wneud. Yna, byddai proses hunanasesu lle y byddai darparwr yn cadarnhau ei atebolrwydd ac yn gwneud taliad i'r awdurdod treth.

Dull gweithredu a'r camau nesaf

Dyma'r iteriad cyntaf ar asesiad effaith a chafodd ei baratoi i'w gyhoeddi ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori. Mae'n cyflwyno ein barn gychwynnol, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn ag effeithiau posibl ar amrywiol grwpiau a fyddai'n deillio o benderfyniad awdurdodau lleol i ddewis rhoi ardoll ymwelwyr ar waith. Caiff yr asesiad ei ddiwygio mewn iteriad arall wrth i'r cynigion gael eu datblygu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu allbynnau o ymchwil fanylach, sy'n ystyried effeithiau economaidd ardoll ymwelwyr ac elastigeddau pris ac incwm. Adlewyrchir canfyddiadau'r gwaith hwnnw yn yr asesiad effaith hwn, a chyhoeddwyd yr adroddiad annibynnol ar wahân¹². Rydym yn cydnabod bod gan ardaloedd eraill sy'n gweithredu ardoll ymwelwyr lefelau gwahanol o dreth, ac felly rydym wedi caffael dadansoddiad cymharu annibynnol o systemau trethiant rhwng y DU ac ardaloedd eraill sy'n gweithredu ardoll ymwelwyr ac asesiad o ddemograffeg y sector llety yng Nghymru, er mwyn ein helpu i ddeall y mater hwn. Caiff yr ymchwil hon ei chyhoeddi maes o law¹³ ac mae'n cynnig rhagor o gyd-destun ynglŷn â systemau trethiant mewn ardaloedd eraill sy'n gweithredu ardollau ymwelwyr.

Nid yw'r asesiad effaith rheoleiddiol rhannol hwn yn tybio model terfynol ond mae'n cymharu model cwbl leol â model cwbl ganoledig er mwyn dangos effeithiau'r ddau ddull polisi gwahanol. Yn ymarferol, mae'n bosibl y bydd model terfynol yn taro cydbwysedd rhwng y ddau ddull gweithredu hyn.

¹¹Enghraifft fyw o sut i ymateb i'r mater hwn yw'r sefyllfa a welir ym Mharis sydd wedi mynd i'r afael â'r broblem hon drwy ei gwneud yn ofynnol i lwyfannau megis Airbnb gasglu trethi twristiaeth ar ran darparwyr llety a'u hanfon ymlaen.

¹² Mae'r ymchwil hon ar gael drwy [Ystadegau ac ymchwil | LLYW.CYMRU](#)

¹³ Bydd yr ymchwil hon ar gael drwy [Ystadegau ac ymchwil | LLYW.CYMRU](#).

Fodd bynnag, mae cwestiynau polisi allweddol sy'n gofyn am ragor o brofion fel rhan o'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r fframwaith (rheolau) ar gyfer yr ardoll hwn. Er enghraifft, gallai cryn annibyniaeth leol arwain at anghysondebau o ran gweithredu'r ardoll ond efallai y bydd amgylchiadau yn codi lle mae hyn yn briodol. Er enghraifft, mae elastigeddau pris (sensitifrwydd i bris) yn debygol o amrywio rhwng awdurdodau lleol ac felly efallai y bydd rhesymeg dros gyfraddau gwahanol, yn dibynnu ar yr ardal awdurdod lleol. Ystyrir hyn ymhellach drwy'r ymgynghoriad.

Gall y ffordd y gweithredir yr ardoll gael ei hystyried ar wahân i'r cwestiwn sy'n codi o ran o dan ba fframwaith y byddai'r ardoll yn gweithredu (ac ystyrir opsiynau drwy Dabl 6 ar dudalen 54). O safbwynt gweinyddol, bydd angen inni ystyried y gofynion ar gyfer model gweithredol a'i ddatblygu drwy ystyried prosesau, pobl, trefniadaeth, technoleg a gwybodaeth. Bydd angen hefyd ystyried cost bosibl cyflwyno'r dreth a sut i'w dylunio a'i chyflwyno mewn ffordd gosteffeithiol. Bydd angen asesu hyn yn erbyn y refeniw posibl i awdurdodau lleol sy'n dymuno rhoi'r dreth ar waith.

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn llawer o gwestiynau ynglŷn â sut y dylid dylunio ardoll ymwelwyr. Nid yw'r iteriad hwn ar yr asesiad effaith rheoleiddiol rhannol yn cyflwyno argymhelliad ffurfiol i gymeradwyo unrhyw un o'r opsiynau hynny yn yr ymgynghoriad.

Hoffem ddiolch i bawb ymlaen llaw am gymryd yr amser i ymateb i'r ymgynghoriad a gobeithiwn y bydd yn rhoi cyfle i fod yn rhan o'r gwaith o ddylunio'r ardoll ar y cyd â'r rhai a fydd yn ei roi ar waith yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Cyd-destun Ardoll Ymwelwyr

Amcanion

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori er mwyn helpu i lywio cynigion polisi ar gyfer pwerau disgresiynol a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i godi ardoll ymwelwyr am arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol.¹⁴ Nid yw aros dros nos gyda theulu a ffrindiau (h.y. yn eu llety eu hunain) o fewn cwmpas y polisi hwn. Fodd bynnag, byddai unrhyw nosweithiau a gynigir am ddim neu am bris gostyngol fel rhan o arhosiad mewn llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol, lle mae cydnabyddiaeth am unrhyw elfen, yn cael eu hystyried yn faterion o fewn y cwmpas. Cynigir y dylai pob ymwelydd sy'n aros mewn llety ymwelwyr (h.y. am wyliau, ymweld â theulu a ffrindiau a theithio busnes) gael ei ystyried o fewn cwmpas y dreth oni bai ei fod wedi'i esemptio fel arall.

Bydd yr ymgynghoriad yn llywio'r broses o ddatblygu dyluniad yr ardoll ac yn ein helpu i ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ardoll ymhellach. Bydd yr ymgynghoriad yn rhoi cyfle i ystyried amrywiaeth o ymatebion cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ynglŷn â dyluniad y dreth a'r ffordd y bydd yn gweithredu¹⁵.

Bwriedir i ardoll ymwelwyr a roddir ar waith yn llwyddiannus gyflawni'r amcanion canlynol, sy'n rhoi'r sylfaen dros fesur effaith yr ardoll:

- Sicrhau y bydd costau ariannu gwasanaethau a seilwaith lleol sydd o fudd i ymwelwyr yn cael eu rhannu'n fwy cyfartal rhwng trigolion ac ymwelwyr;
- Galluogi awdurdodau lleol i gynhyrchu refeniw ychwanegol y gellir ei fuddsoddi'n ôl mewn gwasanaethau a seilwaith lleol sy'n gallu cefnogi twristiaeth;
- Cefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer twristiaeth gynaliadwy¹⁶.

Mae'r amcanion hyn yn gyson ag egwyddorion polisi treth ehangach Llywodraeth Cymru.

Cefndir

Mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi yng Nghymru. Cafwyd mwy na 90 miliwn o ymweliadau â Chymru yn 2019, a arweiniodd at gyfanswm gwariant o fwy na £5.9 biliwn. Roedd 10 miliwn o'r ymweliadau hyn yn cynnwys aros dros nos, gan arwain at wariant o fwy na £2 biliwn¹⁷.¹⁸ Mae'r ymweliadau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at economïau lleol, ac roedd twristiaeth a lletygarwch yn cyflogi 151,000 o bobl yng Nghymru yn 2019, sef cyfanswm o 11.3% o'r gweithlu.

¹⁴ Gweler y ddogfen ymgynghori am ddiffiniadau

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Datganiadau ystadegau swyddogol ac ymchwil am Gymru, ar gael yn: [Ystadegau ac ymchwil | LLYW.CYMRU](#)

¹⁶ [Croeso i Gymru: blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020-2025 \(llyw.cymru\)](#)

¹⁷ Nid yw data mwy diweddar ar gyfaint na gwerth twristiaeth ar gael am fod ystadegau swyddogol ynglŷn â thwristiaeth ddomestig wedi'u hatal dros dro ar hyn o bryd. Mae'n bwysig nodi y bydd y perfformiad twristiaeth presennol yn wahanol i'r ffigurau hyn ond bydd ar gael ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol.

¹⁸ [Perfformiad Twristiaeth yng Nghymru, rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2019 \(llyw.cymru\)](#)

Fodd bynnag, mae cost yn gysylltiedig â'r cymunedau lleol hynny sy'n derbyn ein hymwelwyr. Gall ymwelwyr roi pwysau ychwanegol ar wasanaethau a seilwaith lleol sydd hefyd yn cael eu defnyddio gan drigolion.

Mae 'ardoll ymwelwyr' neu 'treth dwristiaeth' wedi cael ei gynnig dro ar ôl tro dros y blynyddoedd er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau hyn. Cymysg fu'r ymateb i'r cysyniad o ardoll ymwelwyr, gyda'r rhai sy'n dadlau o'i blaid yn cefnogi proses o gynhyrchu a dyrannu refeniw wedi'i dargedu, hynny yw, y gallai'r arian gael ei ddefnyddio i wella'r arlwy i dwristiaid. Mae'r rhai sy'n gwrthwynebu ardoll ymwelwyr yn awgrymu y gallai beri i ardaloedd sy'n codi ardoll fod yn llai cystadleuol yn y farchnad dwristiaeth, yn enwedig o ystyried y niferoedd llai o ymwelwyr o'r Undeb Ewropeaidd (yr UE) ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr UE¹⁹. Serch hynny, mae dros 150 o wledydd, gan gynnwys 25 o wledydd Ewropeaidd, yn codi trethi twristiaeth²⁰. Mae llawer o ddarparwyr llety ymwelwyr yn dadlau bod y sector eisoes yn cael ei drethu ar lefel uchel, gan nodi bod y gwledydd Ewropeaidd eraill hynny²¹ sy'n codi ardoll ymwelwyr hefyd yn cymhwyso cyfradd TAW is ar gyfer lletygarwch. Codir cyfradd safonol o 20% o TAW ar lety ymwelwyr yn y DU ac fe'i pennir gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, ni sydd â'r trothwy TAW uchaf o gymharu â gwledydd Ewropeaidd eraill, sy'n fantais i lawer o ddarparwyr llety ymwelwyr llai o faint.

Mae systemau treth yn gymhleth eu natur, ac mae'n bwysig deall y system gyfan wrth gyflwyno treth newydd. Mae gan rai gwledydd drethi uniongyrchol uwch (megis trethi ar incwm, elw neu eiddo) o gymharu â threthi anuniongyrchol (megis TAW) ac i'r gwrthwyneb. Felly, nid yw ystyried un elfen o system dreth ar ei phen ei hun yn rhoi asesiad holistaidd o effeithiau treth newydd. Mae lefel is o gystadleurwydd yn bosiblwydd ond mae sylfaen dystiolaeth gyfyngedig sy'n awgrymu bod cyrchfannau yn parhau i ddilyn yr un tueddiadau o ran twf ar ôl cyflwyno ardoll²². Un pryder penodol ynglŷn ag ardoll ymwelwyr i Gymru o bosibl yw bod Cymru cyn cystadlu'n uniongyrchol am dwristiaeth â rhannau eraill o'r DU lle nad oes treth ar aros dros nos ar hyn o bryd.

Un pwynt pwysig arall i'w gadarnhau yw bod gwledydd eraill hefyd yn darparu lefelau gwahanol o wasanaethau cyhoeddus (er enghraifft, mae ein GIG am ddim ar adeg ei ddefnyddio ond mae gwledydd eraill yn gofyn am yswiriant cymdeithasol a/neu ryw fath o daliad ymlaen llaw). Felly, bydd yn rhaid i systemau trethiant yn gyffredinol gyfrif am gostau gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir a bydd hyn, wrth reswm, yn wahanol ledled y byd. Fodd bynnag, fel arfer, defnyddir ardollau ymwelwyr fel sail i sicrhau bod refeniw yn cael ei dderbyn yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol er mwyn adlewyrchu'r costau cyhoeddus uwch sy'n gysylltiedig â derbyn ymwelwyr mewn cyrchfannau poblogaidd.

Mae'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ddatblygu ymhellach ein dealltwriaeth o'r materion a'r pryderon sy'n codi ynglŷn â chynigion ar gyfer ardoll ymwelwyr.

¹⁹ [Consequences of Brexit for Europe's Tourist Industry | ETIAS.info](https://etias.info)

²⁰ [ETOA's 2019 review of European tourism taxes calls for destinations to recognise the value of the visitor economy and risk to competitiveness - ETOA - Cymdeithas Twristiaeth Ewrop | dros 1,200 o aelodau: ETOA – Cymdeithas Twristiaeth Ewrop | dros 1,200 o aelodau](#)

²¹ [Welcome to 2020, the year of the tourist tax \(telegraph.co.uk\)](https://www.telegraph.co.uk)

²² [untitled \(europa.eu\)](https://european-council.europa.eu)

Ymgynghori ac Ymgysylltu

Cyn ymgynghori, rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Dechreuodd y gweithgarwch ymgysylltu ar ddechrau 2022 ac mae wedi ein helpu i ddatblygu'r ymgynghoriad a deall rhai o'r effeithiau posibl yn fanylach.

Mae swyddogion Trysorlys Cymru wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o'r diwydiant twristiaeth a'r diwydiant lletygarwch, llywodraeth leol, Awdurdod Cyllid Cymru, parciau cenedlaethol, llwyfannau archebu llety ar-lein, awdurdodaethau tramor a sefydliadau yn y trydydd sector. Drwy barhau i ymgysylltu â'r grwpiau a'r sefydliadau hyn bydd hynny yn helpu i lywio dyluniad a chwmpas ardoll yng Nghymru a sut y byddai'n gweithio. Mae Atodiad B yn rhoi rhestr lawn o'r rhai rydym wedi ymgysylltu â nhw.

Drwy ymgysylltu o'r fath rydym wedi nodi rhai themâu allweddol o ran effeithiau, gan gynnwys:

- Costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu ardoll. Mae'r rhain yn cynnwys costau ychwanegol i'r awdurdod treth lleol/canolog perthnasol a'r darparwr llety ymwelwyr fel trethdalwr posibl. Byddai'r costau tebygol yn cynnwys datblygu a chynnal a chadw systemau, recriwtio a hyfforddi staff, casglu, rheoli a diogelu data, a'r tasgau gweinyddol ychwanegol parhaus a fyddai'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio ag ardoll.
- Newidiadau yn niferoedd ymwelwyr oherwydd llai o alw neu ddadleoli o ganlyniad i newid mewn pris (elastigedd pris). Efallai y bydd ymwelwyr yn dewis ymweld ag ardaloedd awdurdod lleol gwahanol h.y., y rhai lle na chodir yr ardoll, neu wlad hollol wahanol, er mwyn osgoi cost ychwanegol yr ardoll. Cyfyngedig yw'r ymchwil i effeithiau ymddygiadau sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr i Gymru. Ystyrir elastigeddau pris yn fanylach yn ddiweddarach yn y ddogfen hon. Yn y ddogfen hon, mae asesiad cychwynnol wedi cael ei gyflwyno sydd wedi'i lywio gan ymchwil annibynnol i bwnc elastigeddau pris. Bydd maint yr effaith ar ymddygiad yn dibynnu'n bennaf ar gyfradd yr ardoll a bennir. Gall cyfradd a bennir yn rhy uchel newid ymddygiad ymwelwyr mewn ffordd andwyol.
- Newidiadau yng ngwariant ymwelwyr. Mewn ymateb i gost ychwanegol yr ardoll ar lety dros nos, efallai y bydd ymwelwyr yn gwario llai ar bethau eraill (er enghraifft, ar brydau bwyd neu adloniant). Gall hyn effeithio ar refeniw busnesau ehangach yn yr ardal leol sy'n cael mantais o wariant ymwelwyr.
- Mae'n debygol y bydd lefelau derbynioldeb yr ardoll yn dibynnu ar y ffordd y caiff y refeniw ei wario. I'r rhai sy'n byw yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd poblogaidd i dwristiaid, gallai cyflwyno'r ardoll gael effeithiau cadarnhaol, a hynny am y gallai awdurdodau lleol sy'n codi refeniw ychwanegol wario'r arian ychwanegol ar wella eu hardal leol a/neu wasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft: wrth gynnig opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus mwy cynaliadwy, helpu i ariannu a gwella cyfleusterau cyhoeddus megis canolfannau ymwelwyr a thoiledau, cynnal a chadw llwybrau troed, gwarchod a gwella mannau gwyrdd a thraethau ac ati.

Y cyd-destun economaidd presennol

Mae heriau'r sefyllfa economaidd bresennol ac adfer yn sgil y pandemig wedi cael eu nodi gan ddarparwyr llety ymwelwyr, a gododd y materion canlynol yn ein trafodaethau â nhw:

- Costau cynyddol biliau ynni am nad yw'r cap ar brisiau ynni yn berthnasol i fusnesau ac maent yn nodi amrywiaeth o gostau sy'n cynyddu²³.
- Mae llawer o fusnesau hefyd wedi nodi chwyddiant prisiau mewnbwn ehangach fel pryder²⁴.
- Nododd 22% o fusnesau broblemau o hyd o ran tarfu ar gadwyni cyflenwi bydeang²⁵
- Mae busnesau lletygarwch yn nodi heriau o hyd o ran recriwtio. Dangosodd data o ddiwedd 2021 mai busnesau lletygarwch oedd y rhai mwyaf tebygol o fod yn wynebu pwysau i lenwi swyddi gwag²⁶. Mae'r duedd hon yn debygol o barhau gyda'r niferoedd uchaf erioed o swyddi gwag²⁷ gan gynnwys 171,000 o swyddi gwag ar gyfer llety a gwasanaethau bwyd wedi'u cofnodi yn y DU²⁸.
- Codwyd pryderon cyffredinol y byddai treth newydd yn ychwanegu at y pwysau hyn.
- Roedd rhywfaint o gamddealltwriaeth ynglŷn â therfynau amser datblygu a chyflwyno ardoll ymwelwyr, gyda rhai yn meddwl y byddai hyn yn digwydd yn union ar ôl yr ymgynghoriad.

Byddai'r cynigion sy'n cael eu hystyried yn gofyn am ddeddfwriaeth ac ar gyfer unrhyw gynigion a ddatblygir, byddai terfynau amser yn cael eu cyfleu drwy gynllun gweithredu unwaith eu bod yn derfynol.

Sectorau a grwpiau yr effeithir arnynt gan ardoll ymwelwyr

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid, nodir y grwpiau a'r sectorau canlynol fel grwpiau allweddol yr effeithir arnynt os bydd awdurdod lleol yn cyflwyno ardoll ymwelwyr:

- Yr awdurdod lleol
- Yr awdurdod treth (a all fod yn awdurdod lleol neu ganolog) sy'n chwarae rôl yn y broses o roi'r ardoll ar waith a'i weinyddu
- Darparwyr llety ymwelwyr
- Y gymuned fusnes ehangach
- Ymwelwyr
- Cyflogeion darparwyr llety ymwelwyr a busnesau twristiaeth eraill

²³ 3 in 4 Firms Raising Prices as Chancellor warned of 'Cost of Doing Business Crisis' ([britishchambers.org.uk](https://www.britishchambers.org.uk))

²⁴ Business insights and impact on the UK economy - y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

²⁵ Ibid.

²⁶ Hospitality businesses are most likely to be struggling to fill vacancies - y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

²⁷ Vacancies and jobs in the UK - y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

²⁸ VACS02: Vacancies by industry - Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

- Trigolion awdurdodau lleol
- Llywodraeth Cymru.

Meintioli costau a manteision

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae'r asesiad effaith rheoleiddiol rhannol hwn yn gwerthuso tri opsiwn ar gyfer rhoi ardoll ymwelwyr ar waith a'r costau a'r manteision posibl sy'n codi i bob un o'r grwpiau y nodwyd y byddai'r ardoll yn effeithio arnynt. Cafodd yr asesiad hwn ei baratoi drwy ddefnyddio'r data sydd ar gael inni ar hyn o bryd ac mae'n seiliedig ar nifer o dybiaethau (a nodir isod). Dim ond at ddibenion paratoi'r asesiad effaith rheoleiddiol rhannol hwn y mae'r opsiynau a nodir isod a'r tybiaethau y manylir arnynt wedi cael eu llunio. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn bydd cyfle i gasglu tystiolaeth i lywio ein dealltwriaeth o effaith bosibl y polisi ar grwpiau allweddol yr effeithir arnynt gan yr ardoll er mwyn llywio'r broses o ddatblygu polisi yn y dyfodol.

Tybiaethau allweddol

Rhoddir isod esboniad cychwynnol o'r tybiaethau y mae'r costau a'r manteision yn seiliedig arnynt. Bydd dadansoddiad o sensitifrwydd yn cael ei gynnal i brofi effaith newid unrhyw un o'r tybiaethau allweddol a ddefnyddir yn y cyfrifiadau, a bwriedir i grynoded o'r dadansoddiad o sensitifrwydd gael ei gyflwyno mewn iteriad pellach ar yr asesiad effaith rheoleiddiol rhannol hwn wrth i'r cynigion gael eu datblygu.

Thema'r Dybiaeth	Disgrifiad o'r Dybiaeth
Digwyddiad trethadwy	Y byddai'r ardoll yn daladwy gan ymwelydd ar arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr
Atebolrwydd	Y darparwr llety ymwelwyr fyddai'r trethdalwr cyfreithiol
Proses weithredu gan awdurdod lleol	Efallai y bydd nifer penodol o awdurdodau lleol o blith y 22 o awdurdodau unedol (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) yng Nghymru yn dewis rhoi'r ardoll ar waith
Effaith ar ddarparwyr llety ymwelwyr yn ôl maint	Y bydd yr effeithiau'n amrywio rhwng darparwyr llety ymwelwyr yn seiliedig ar eu maint. Nodweddir yr economi ymwelwyr gan nifer mawr o fusnesau bach a micro-fusnesau, sy'n fwy tebygol fyth yng Nghymru o ystyried ei heconomi lai o faint o gymharu â gwledydd cyfatebol byd-eang ²⁹ . Mae'r compendiwm cyd-destunol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r asesiad effaith yn rhoi gwybodaeth am niferoedd ymwelwyr, nifer y nosweithiau, gwariant ymwelwyr a ffigurau cyflenwi llety ar gyfer gwahanol fathau o sefydliadau (Llety â Gwasanaeth, Llety Hunanddarpar, Meysydd)

²⁹ [Twristiaeth \(senedd.wales\)](#)

	Gwersylla/Carafannau, Hostelau a Llety Amgen), nifer y sefydliadau a chyfanswm y lleoedd gwely. Mae hefyd yn cynnwys data o'r Gofrestr Busnes Rhyngadrannol sy'n dangos nifer y sefydliadau yn ôl categori o lety. Mae hefyd yn cynnwys, at ddibenion cymharu, nifer y sefydliadau hunanddarpar fel y'u mesurwyd gan Transparent Intelligence, sy'n gyflenwr data trydydd parti sy'n darparu data ar lety a osodir am gyfnodau byr a gesglir o bedair sianel archebu llety, sef AirBnB, Vrbo, Tripadvisor, Booking.com. Mae busnesau llai o faint o'r fath yn gweithredu ar sail maint elw bach ac, yn aml, heb fawr ddim clustogi o ran cyfalaf, sy'n golygu y gall newidiadau bach yn y system dreth olygu ei bod yn fwy anodd iddynt ymdopi ag effaith unrhyw newidiadau mewn prisiau a chostau gweinyddol ychwanegol Mae'r busnesau hyn, yn enwedig yn y sector llety, wedi wynebu cryn darfu hefyd drwy dwf yr economi rhannu³⁰, sydd wedi cyflwyno mwy o gystadleuaeth. Mae'r busnesau bach hyn yn aml yn defnyddio llwyfannau'r economi rhannu³¹ er eu mantais eu hunain hefyd, drwy eu defnyddio fel sianeli marchnata/archebu llety. Mae cyfleoedd yn codi wrth ddylunio'r dreth (fel y'u nodir yn Nhabl 6) i leihau unrhyw faich i'r eithaf. Hefyd, gall cyflwyno'r dreth yn ofalus fesul cam helpu i ateb yr heriau hyn. Er enghraifft, gellid cynnal ymarfer "glanio meddal" i ddarparwyr llety ymwelwyr sy'n nodi gwybodaeth am ofynion. Hefyd, gellid cynnal sesiynau gyda chyfrifwyr a pherchenogion unigol i ddangos "sut i'w wneud" ynghyd â chyfleoedd holi ac ateb. Mae Tabl 1 yn y Compendiwm yn dangos nifer y sefydliadau hunanddarpar a gofnodir drwy'r Adroddiad ar y Stoc Welyau o gymharu â'r data a ddarperir gan Transparent Intelligence. Cafodd y data a gasglwyd ar gyfer yr Adroddiad ar y Stoc Welyau eu casglu gan awdurdodau lleol dros gyfnod o bum mlynedd ac, fel y cyfryw, efallai y bydd anghysondebau yn y data a gofnodwyd. Mae'r tabl yn dangos bod yr Adroddiad ar y Stoc Welyau yn tanamcangyfrif nifer y sefydliadau hunanddarpar sydd ar gael yng Nghymru ar y cyfan.
--	--

³⁰ [Beth yw economi rhannu? - Diffiniad o WhatIs.com \(techtarget.com\)](#)

³¹ *Dylid nodi bod AirBnB ac ati yn cael eu dosbarthu'n llwyfannau hybrid gan SYG yn hytrach na chael eu cynnwys mewn diffiniadau ystadegol o'r economi rhannu oherwydd y ffordd y mae'r llwyfan wedi datblygu i gynnwys trafodion rhwng busnesau a defnyddwyr ochr yn ochr â thrafodion rhwng defnyddwyr a defnyddwyr³¹. Fodd bynnag, y derminoleg a ddefnyddir fel arfer (ac yn hanesyddol) i gynodi'r mathau hyn o llwyfannau yw'r economi rhannu.

Math o gyfradd	Y bydd y math o gyfradd a ddefnyddir yn arwain at gostau a manteision amrywiedig gyda math mwy cymhleth o gyfradd yn arwain at gostau uwch i'w chodi.
Cyfradd drethadwy	Y bydd lefel y gyfradd a godir yn pennu amrywiaeth o ymatebion ymddygiadol. Ceir ansicrwydd ynglŷn â lefel yr effaith economaidd y gall ardoll ei chael ar gyfraddau defnydd llety, ond mae busnesau yn disgwyl y bydd ymwelwyr yn addasu eu hymddygiad yn unol â lefel y gyfradd. Bydd lefelau incwm gwario hefyd yn dylanwadu ar ymddygiad ochr yn ochr â chost llety ymwelwyr. Y tebyg yw y bydd ymatebolrwydd ymwelwyr i bris yn amrywio ar lefel ranbarthol ledled Cymru. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gyfyngedig y byddai cyflwyno ardoll ymwelwyr ar gyfradd gymharol isel – un a fyddai'n ganran fach o wariant nodweddiadol twristiaid – yn achosi niwed economaidd³².
Lefelau sensitifrwydd i bris ac incwm	Y bydd effaith economaidd yr ardoll yn dibynnu ar y canlynol: • elastigeddau pris ac incwm galw am nwyddau a gwasanaethau twristiaeth (h.y., ymatebolrwydd y galw i newid mewn prisiau ac incymau) • elastigedd y cyflenwad o nwyddau a gwasanaethau twristiaeth (ymatebolrwydd y cyflenwad i newid mewn prisiau).
TAW	1) Y bydd cyfraddau TAW yn parhau'n rhai safonol ar gyfer llety ymwelwyr. Codir TAW am lety gwyliau ar y gyfradd safonol (20%) ar ôl gostyngiad dros dro mewn cyfraddau yn ystod y pandemig³³. Yng ngwledydd yr UE lle y gweithredir ardollau tebyg, fel arfer mae'r ardoll yn rhan o gyfanswm y costau y telir TAW arnynt (h.y. byddai TAW yn daladwy ar y pris sylfaen ynghyd â swm yr ardoll). Llywodraeth y DU sy'n pennu cyfraddau a rheolau TAW, a byddwn yn parhau i gynnal trafodaethau â swyddogion Llywodraeth y DU er mwyn deall sut y caiff yr ardoll arfaethedig ei drin at ddibenion unrhyw gynigion terfynol. 2) Nad yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru yn cyrraedd y trothwy TAW (y pwynt lle mae'n rhaid codi a chasglu TAW). Mae'r Gofrestr Busnes Ryngadrannol yn nodi bod tua 1,615 (Ffigur 6 yn y Compendium) o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru sydd wedi'u cofrestru i dalu

³² [5.86 Tourism tax briefing 02.pdf \(local.gov.uk\)](#)

³³ *Hotels and holiday accommodation (VAT Notice 709/3)*, [<https://www.gov.uk/guidance/hotels-holiday-accommodation-and-vat-notice-7093>]

	TAW neu TWE. Nid yw'r rhai sydd islaw'r trothwy TAW wedi'u cynnwys (oni bai eu bod wedi cofrestru'n wirfoddol). Mae data ar y stoc welyau a gyhoeddwyd ar 18 Awst 2022 yn dangos bod 16,600 o sefydliadau llety yng Nghymru (Ffigur 4 yn y Compendiwm). Mae data pellach a gasglwyd gan Transparent Intelligence ar lety hunanddarpar yng Nghymru yn awgrymu bod yr Adroddiad ar y Stoc Welyau yn debygol o fod yn tanamcangyfrif nifer y darparwyr hunanddarpar yng Nghymru. Mae'r Adroddiad ar y Stoc Welyau yn nodi 12,145 o ddarparwyr llety hunanddarpar ond mae adroddiad Transparent Intelligence yn nodi 26,686 o ddarparwyr llety hunanddarpar (Tabl 1 yn y Compendiwm)³⁴. Gan fod y ddau ffigur, 12,145 a 26,686, yn uwch na'r ffigur o 1,615 a nodwyd yn y Gofrestr Busnes Ryngadrannol gallwn dybio nad yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru yn cyrraedd y trothwy TAW ac felly nad yw'n ofynnol iddynt ei hychwanegu at eu gwasanaethau. Fodd bynnag rydym yn cydnabod bod adroddiad Transparent Intelligence yn debygol o gynnwys cyfran fawr o lety a gynigir yn achlysurol/achlysuron iawn sy'n gweithredu ar sail wahanol i lety â gwasanaeth/llety busnes.
Gweinyddu lleol yn erbyn gweinyddu canolog	Bydd effeithiau yn amrywio yn dibynnu ar y ffordd y gweinyddir ardoll. Bydd amrywiaeth o effeithiau ymhlith yr elfennau o'r dreth sy'n ymwneud â gweinyddu lleol a chanolog, ond dylid nodi mai treth leol i ariannu gwariant awdurdodau lleol fydd y dreth hon. Mae'r asesiad hwn yn gwerthuso effeithiau yn seiliedig ar fodelau gweithredu cwbl leol a chwbl ganolog.
Treth a hunanasesir	Treth a hunanasesir fydd yr ardoll. Mae hyn yn golygu y byddai'n ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr gadw cofnodion penodol a chyflwyno ffurflenni treth i'r awdurdod treth perthnasol h.y., naill ai'n lleol i awdurdodau lleol neu'n ganolog. Byddai'n rhaid i bob darparwr llety ymwelwyr benderfynu a yw'n dod o fewn cwrpas yr ardoll ac, os felly, byddai angen wedyn iddynt gyflwyno ffurflenni treth a hunanasesir i'r awdurdod treth perthnasol. Mae'r awdurdod treth perthnasol yn chwarae rôl o ran plismona'r system (h.y. sicrhau bod pawb sydd o fewn cwrpas yr arddoll ac a ddylai gyflwyno ffurflenni treth yn gwneud hynny).

○ ³⁴ nid oes modd datddyblygu'r ffigurau hyn felly mae'n bosibl bod cyfrif dwbl ac felly bydd angen defnyddio'r ffynonellau'n ofalus.

Adolygiad o dystiolaeth ynglŷn ag elastigeddau sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru³⁵

Er mwyn helpu i lywio'r ymgynghoriad ffurfiol, a chefnogi'r gwaith o ddylunio a datblygu'r ardoll, gwnaethom gomisiynu Alma Economics i gynnal adolygiad o dystiolaeth ynglŷn ag elastigeddau sy'n berthnasol i ardoll ymwelwyr yng Nghymru (h.y. sut mae'r galw neu'r cyflenwad mewn nwyddau a gwasanaethau twristiaeth, yn enwedig llety, yn newid mewn ymateb i newidiadau mewn prisiau neu incwm.

Diffiniadau:

Mae elastigedd pris galw yn mesur ymateb y galw am nwydd neu wasanaeth pan fydd ei bris yn newid. Caiff ei gyfrifo fel y newid canrannol yn y galw wedi'i rannu â'r newid canrannol mewn pris. Mae gwerth negatif o ran elastigedd pris galw yn dynodi bod lefel y galw yn gostwng wrth i'r pris gynyddu, ac i'r gwrthwyneb. Pan fo gwerth absoliwt elastigedd pris galw yn fwy nag 1, mae'r newid canrannol yn y galw yn fwy na'r newid canrannol yn y pris. Felly, dywedir bod y galw yn elastig. Mae gwerth absoliwt sy'n llai nag 1 yn dynodi galw anelastig.

Mae elastigedd incwm galw yn mesur ymateb y galw am dwristiaeth (allan neu i mewn) i'r newidiadau yn incwm twristiaid. Caiff ei gyfrifo fel y newid canrannol yn y galw wedi'i rannu â'r newid canrannol mewn incwm. Ceir elastigedd incwm galw positif am nwyddau a elwir yn "normal", sef y byddai'r galw yn cynyddu wrth i'r incwm gynyddu. Gall nwyddau normal fod yn "nwyddau hanfodol" neu'n "nwyddau moethus". Mae'r galw am nwyddau hanfodol yn anelastig, â gwerthoedd elastigedd incwm galw o rhwng 0 a 1, ond mae'r galw am nwyddau moethus yn elastig, â gwerthoedd elastigedd incwm galw o fwy nag 1.

Crynodeb:

Methodoleg

Cynhaliwyd yr adolygiad ar ffurf asesiad cyflym o'r dystiolaeth, a gynigiodd ffordd strwythuredig, dryloyw a dyblygadwy o chwilio ac asesu ansawdd y dystiolaeth sydd ar gael ar y pwnc hwn.

Mewn chwiliad cychwynnol a oedd yn defnyddio'r termau chwilio y cytunwyd arnynt nodwyd 777 o bapurau, adroddiadau a llyfrau a gafodd eu hadalw a'u cofnodi.

Canfyddiadau Allweddol

Elastigeddau pris galw

O blith y 560 o astudiaethau ar y rhestr hir, nid oedd yr un yn rhoi amcangyfrifon penodol i Gymru, a dim ond nifer bach a roddodd amcangyfrifon i'r DU. Adolygwyd 33 o astudiaethau yn llawn yn dilyn y camau sgrinio a hidlo cychwynnol yn seiliedig ar feini prawf hygredd, methodoleg briodol a pherthnasedd.

Nid oedd yr un o'r astudiaethau a ddefnyddiwyd yn ystyried cyflwyno/amrywio treth dwristiaeth/ardoll fel y ffynhonnell o amrywiad mewn pris.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu'n fras bod elastigedd pris galw o ran twristiaeth (yn gyffredinol, nid dim ond ar gyfer llety) yn ffigur unedol yn fras (h.y., mae cynnydd

³⁵ Noder – Mae'r ymchwil hon ar gael drwy [Ystadegau ac ymchwil | LLYW.CYMRU](#)

(gostyngiad) o un y cant) ym mhris nwyddau a gwasanaethau twristiaeth yn gysylltiedig â gostyngiad (cynnydd) o un y cant yn y galw am nwyddau a gwasanaethau twristiaeth.) Awgrymodd rhai astudiaethau fod elastigedd pris y galw am dwristiaeth yn llai na -1 (h.y. bod y galw yn elastig) ac awgrymodd astudiaethau eraill fod elastigedd pris y galw am dwristiaeth rhwng 0 a -1 (h.y. bod galw yn anelastig).

Disgwylid amrywio mewn amcangyfrifon o ystyried heriau a chyfyngiadau'r astudiaethau, gan gynnwys, er enghraifft, yr anawsterau o ran diffinio a mesur cyflenwad a galw ym maes twristiaeth, incwm a phrisiau; a rheoli'r holl ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar alw a chyflenwad (ffactorau economaidd-gymdeithasol a gwleidyddol ehangach ac ati).

Canfu'r adolygiad hefyd yr ymddengys bod elastigedd pris galw yn amrywio yn ôl:

- o ba wlad y daw'r ymwelwyr
- y cyrchfan
- y cyfnod teithio
- y dull a ddefnyddir i amcangyfrif yr elastigedd
- a ystyrir y byrdymor o'i gymharu â'r hirdymor
- y data a ddefnyddir (amlder a maint y sampl)

Canfuwyd mai elastigedd pris y galw am lety (yn hytrach na nwyddau a gwasanaethau twristiaeth yn eu cyfanrwydd) oedd tua -0.7 ar gyfartaledd, sy'n golygu bod y galw am lety yn gymharol anelastig o ran pris.

Elastigeddau incwm galw

Canfuwyd yn gyffredinol fod amcangyfrifon o elastigedd incwm galw yn bositif, sy'n awgrymu bod y galw am dwristiaeth yn cynyddu wrth i incwm ymwelwyr gynyddu. Fodd bynnag, cymysg fu'r dystiolaeth ynghylch a ganfuwyd bod twristiaeth yn nwydd hanfodol (elastigedd pris galw < 1 h.y., galw anelastig) neu'n nwydd moethus (elastigedd incwm galw > 1 h.y., galw elastig).

Canfuwyd yn gyffredinol fod y galw am lety (yn hytrach na thwristiaeth yn gyffredinol) yn llai ymatebol i newidiadau mewn incwm na nwyddau a gwasanaethau twristiaeth eraill.

Elastigeddau traws-bris galw

Cafwyd nifer cymharol fach o amcangyfrifon o elastigeddau traws-bris ar gyfer nwyddau a gwasanaethau twristiaeth (h.y. newid yn y galw am un nwydd neu wasasanaeth mewn ymateb i newid ym mhris un arall). Roedd yr astudiaethau hyn fel arfer yn ystyried yr effaith ar y galw am wahanol gategorïau o nwyddau a gwasanaethau twristiaeth (gan gynnwys llety, cludiant a siopa) ar ôl newid mewn prisiau cymharol.

Ceir rhywfaint o dystiolaeth o elastigedd traws-bris galw negatif rhwng gwahanol nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu a'u defnyddio gan dwristiaid, sy'n awgrymu cyfatebolrwydd o ran dewisiadau defnyddwyr (e.e. mae'r galw am fwyd a diod yn lleihau os bydd pris llety yn cynyddu).

Elastigeddau pris cyflenwad

Ni wnaeth yr un astudiaeth, a fodlonodd y meini prawf hidlo, roi amcangyfrifon ar gyfer elastigedd pris cyflenwad nwyddau a gwasanaethau twristiaeth. Bydd greddf yn awgrymu y byddai gan lety gyflenwad anelastig, yn enwedig yn y byrdymor, ond ni welwyd unrhyw dystiolaeth empirig gredadwy.

Ymchwil ychwanegol

Ar y cyfan, nid oedd fawr ddim dystiolaeth a oedd yn ymdrin â chwestiynau ymchwil ychwanegol, gan gynnwys:

- dirnadaeth i ffactorau sy'n ysgogi ymddygiad ymwelwyr y tu hwnt i brisiau;
- gwahaniaethau rhwng elastigeddau ar lefel genedlaethol a lleol a allai fod yn berthnasol iawn yng nghyd-destun Cymru lle y bydd y penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd y mae'r ardoll yn gweithredu yn cael eu gwneud gan awdurdodau lleol;
- a yw trethi ac ardollau yn cael effaith wahanol i ffynonellau eraill o newidiadau mewn prisiau e.e. am fod eu hamlwg yn anfonebau ymwelwyr

Rhyngweithio â threthi eraill y DU

Mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol at Drysorlys y DU. Daw refeniw yn uniongyrchol o wariant twristiaid drwy drethi megis y Doll Teithwyr Awyr a TAW, ac yn anuniongyrchol o effeithiau gwariant twristiaid ar drethi megis treth gorfforaeth a threth incwm³⁶.

Fel y crybwyllir uchod, os bydd TAW yn gymwys i gost gyffredinol arhosiad gan gynnwys yr ardoll, fel sy'n digwydd mewn gwledydd eraill lle mae ardollau tebyg yn gweithredu, gallai ardoll ymwelwyr arwain at gynnydd bach yn refeniw TAW y DU (am y byddai'n cynyddu'r prisiau y telir TAW arnynt). Byddai hyn yn fanteisiol i Drysorlys y DU. Ar y llaw arall, gallai penderfyniad i gyflwyno ardoll arwain at lai o weithgarwch economaidd (e.e. am fod llai o nosweithiau yn cael eu treulio mewn llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol neu lai o wariant gan ymwelwyr ar lety). Byddai'r effaith hon yn gweithio i'r gwrthwyneb. Mae'r effeithiau hyn ar TAW yn debygol o fod yn fach iawn yn y naill achos a'r llall.

Opsiynau polisi at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol rhannol hwn

Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol rhannol hwn yn nodi dau opsiwn bras ar gyfer ardoll ymwelwyr a ddisgrifir isod. Mae'r asesiad effaith hefyd yn gwerthuso effaith 'gwneud dim' neu'r opsiwn busnes fel arfer (Opsiwn 1) lle nad oes gan unrhyw awdurdod lleol y pŵer i gyflwyno ardoll ymwelwyr.

³⁶ [Tourism Jobs and Growth 2013.pdf \(visitbritain.org\)](#)

Mae'r gwahaniaeth rhwng yr opsiynau bras a ystyrir yn y ddogfen hon yn adlewyrchu un o themâu allweddol y ddogfen ymgynghori: y cydbwysedd priodol rhwng annibyniaeth leol a dull gweithredu cyson rhwng awdurdodau lleol.

O ystyried hyn, mae'r opsiynau bras a amlinellir yn cael eu portreadu'n fwriadol i dynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng dull gweithredu sy'n mynnu cymaint o gysondeb â phosibl yn ganolog a dull sy'n rhoi cymaint o annibyniaeth leol â phosibl. Caiff y fframwaith lle y byddai ardoll yn gweithredu ei ystyried yn llawn drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad (rhagor o fanylion isod).

Felly, nid yw'r asesiad effaith rheoleiddiol rhannol hwn yn tybio model terfynol ond mae'n cymharu model cwbl leol â model cwbl ganoledig er mwyn dangos effeithiau'r ddau ddull polisi gwahanol.

Opsiynau ar gyfer fframwaith

Byddai'r ardoll ymwelwyr a gynigir yn debyg i fodel TAW o ran y ffordd y mae'n gweithredu. Byddai'n ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr godi a chasglu'r ardoll oddi wrth ymwelwyr. Yna, byddai proses hunanasesu lle y byddai darparwr yn cadarnhau ei atebolrwydd ac yn gwneud taliad i'r awdurdod treth. Dyma'r sail ar gyfer y math o ardoll rydym yn ei ystyried.

Gallai cryn annibyniaeth leol arwain at anghysondebau o ran gweithredu'r ardoll, ond efallai y bydd amgylchiadau'n codi lle mae hyn yn briodol. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd elastigeddau pris (sensitifrwydd i bris) yn amrywio ymhlith awdurdodau lleol felly efallai y bydd rhesymeg dros bennu cyfraddau lleol a phennu cyfraddau o fewn ardaloedd lleol. Ond fel y crybwyllir uchod, byddai hyn yn arwain at ddifffyg cysondeb, a mwy o gymhlethdod i fusnesau a'r awdurdod treth sy'n gweinyddu'r dreth. Yn yr un modd, efallai y bydd amgylchiadau unigryw yn codi lle y bydd angen pwerau disgresiynol i esemptio grwpiau neu fathau o lety. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgarwch ymgysylltu hyd yma wedi nodi rhesymeg dros bwerau disgresiynol i esemptio.

Gweithredu - Rhoi Ardoll ar Waith

Gellir ystyried y ffordd y gweithredir yr ardoll (ei roi ar waith a'i weinyddu) ar wahân i'r cwestiwn ynghylch o dan ba fframwaith y byddai'r ardoll yn gweithredu.

O safbwynt rhoi'r ardoll ar waith, byddwn yn ystyried y gofynion ar gyfer model gweithredol a'i ddatblygu, gan gynnwys:

- Prosesau
 - Gweithrediadau a swyddogaethau
 - Rhoi cymorth ac ateb cwestiynau
 - Prosesau ffurflenni treth
 - Rheoli taliadau ac ad-daliadau
 - Adnabod trethdalwyr
 - Ffurflenni a chanllawiau
 - Adrodd
 - Rheoli refeniw a chyfrif amdano
- Cydymffurfio a gorfodi

- Nodi risgiau treth
- Adnoddau a phwerau i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio
- Gorfodi dyled
- Rheoli anghydfodau ac ymglyfreitha
- Apeliadau ac iawn
- Pobl
 - Recriwtio
 - Anghenion hyfforddiant, meithrin gallu
- Trefniadaeth
 - Rolau a chyfrifoldebau
 - Adnoddau
 - Adeiladau
 - Llywodraethu ac Atebolrwydd
- Technoleg
 - Gwasanaethau digidol
 - Systemau TGCh
- Gwybodaeth
 - Gofynion rheoli data, storio a dadansoddi
 - Diogelwch gwybodaeth

Gwybodaeth i'r cyhoedd

Gweithredu - Gweinyddiaeth

Mae'r swyddogaethau gweinyddol parhaus yn cyfeirio at gyflwyno'r model gweithredol a ddaw i fodolaeth drwy roi'r ardoll ar waith. Bydd y prif gostau parhaus yn gysylltiedig ag unrhyw ofynion o ran adnoddau (staff) ar yr awdurdod treth sy'n gweinyddu'r ardoll, a fydd yn amrywio yn dibynnu ar y ffordd y gweinyddir ardoll. Er enghraifft, efallai y bydd modd ymgymryd â'r gweithgarwch o fewn rolau sy'n bodoli eisoes neu efallai y bydd angen staff newydd i wneud y gwaith gweinyddol. Bydd lefelau'r adnoddau hefyd yn dibynnu ar lefel y digideiddio. Er enghraifft, efallai y bydd dull digidol, mwy awtomataidd yn golygu costau uwch i roi'r arddoll ar waith ynghyd â chostau cynnal a chadw uwch ond costau adnoddau parhaus is ac i'r gwrthwyneb.

Gall y broses o roi'r ardoll ar waith gynnwys awdurdod canolog megis Awdurdod Cyllid Cymru neu awdurdod lleol lletyol ond efallai na fydd yn cynnwys y rhain. Yn yr un modd, efallai y bydd y swyddogaethau gweinyddol a gyflawnir gan yr awdurdod treth o ddydd i ddydd yn cynnwys awdurdod canolog neu efallai na fydd awdurdod canolog yn cael ei gynnwys. Ystyrir hyn ymhellach yn yr ymgynghoriad.

Mae i ddull cyfunol rinweddau, lle y cyfunir gwybodaeth ac arbenigedd canolog a lleol i greu model gweithredu hybrid sy'n cwmpasu'r broses o roi'r ardoll ar waith a'i weinyddu. Er enghraifft, mae'n gwneud synnwyr dylunio gwasanaethau digidol cyson a ddefnyddir yn gyffredinol i weithredu'r dreth hon yn gyson ar gyfer gweithredu'r dreth hon yn hytrach na bod gan awdurdodau lleol fersiynau niferus wedi'u teilwra.

Fodd bynnag, gall gwybodaeth leol gynnig profiad gwell i'r trethdalwr wrth ddelio ag ymholiadau a rhoi cymorth, o ystyried y bydd awdurdodau lleol yn deall yr ardal yn well ac mewn sefyllfa well i ystyried y wybodaeth hon wrth weithredu'r dreth. Gallai deall amgylchiadau a busnesau lleol yn well olygu bod modd trin trethdalwyr mewn ffordd fwy priodol. O ran sut beth fydd y model gweithredu gorau mae hynny'n dibynnu ar y dyluniad polisi terfynol a gallai olygu mwy neu lai o rôl i awdurdod canolog yn y gwaith o roi'r ardoll ar waith neu ei weinyddu.

Opsiynau ar gyfer y fframwaith treth

At ddibenion yr asesiad effaith hwn, y rhesymeg a fabwysiadwyd wrth lunio'r opsiynau oedd y dylid ymdrin â phob opsiwn a'i effeithiau posibl cysylltiedig ar wahân (i roi eglurder ynglŷn â'r effeithiau gwahanol). Y tri model a ystyrir yw'r opsiwn 'gwneud dim', opsiwn o ardoll lle ceir annibyniaeth leol lawn, ac opsiwn o ardoll a bennir yn ganolog ac a gymhwysir yn lleol heb unrhyw ddisgresiwn lleol ynglŷn â'r rheolau.

Mae nifer o opsiynau gweithredu hefyd ar gael, yn amrywio o fodel gweithredu cwbl ganoledig i fodel gweithredu cwbl leol. Opsiwn arall y cyfeiriwyd ato yn yr ymgynghoriad yw model gweithredu hybrid. Fodd bynnag, nid yw'r opsiwn hwn wedi cael ei fodelu yn yr asesiad effaith hwn am fod cwestiynau polisi allweddol sy'n gofyn am ragor o brofi fel rhan o'r ymgynghoriad cyn y gellir deall sut beth fyddai'r model gweithredu gorau ar gyfer yr ardoll hwn. Unwaith y bydd y model gweithredu a ffeirir wedi'i nodi, ar ôl dadansoddi'r dystiolaeth a gyflwynir mewn ymateb i'r ymgynghoriad, caiff dadansoddiad manylach o'r costau a'r manteision ei roi a bydd cyfle i gael rhagor o fewnbwn gan randdeiliaid.

Tabl 1: Disgrifiad o'r opsiynau a gyflwynir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol rhannol

Mae Tabl 1 yn crynhoi prif nodweddion pob opsiwn ac is-opsiwn.

Opsiwn	Disgrifiad o'r opsiwn	Is-opsiynau ynglŷn â math o gyfradd
Opsiwn 1	Busnes fel arfer – nid oes gan unrhyw awdurdod y pŵer i gyflwyno ardoll ymwelwyr.	Dd/G
Opsiwn 2	Mwy o gysondeb Penderfyniad lleol ar gyflwyno ardoll Penderfyniad yn ganolog: - Amodau cyflwyno - Math o gyfradd - Lefel y gyfradd - Graddau daearyddol mewn ardal awdurdod lleol - Esemptiadau - Defnydd o'r refeniw - Adrodd	a. Fel ystafell/llety fesul noson b. Fesul person fesul noson c. Canran o'r tâl am lety d. Model sy'n cyfuno'r uchod. <i>Ble:</i> • Pennir cyfraddau yn ganolog. • Bydd rhai esemptiadau cyfyngedig wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, ond ni fyddai unrhyw esemptiadau eraill yn cael eu cymhwyso.

Opsiwn 3	Mwy o annibyniaeth leol Penderfyniad lleol ar gyflwyno ardoll Penderfynir yn lleol ar: - Amodau cyflwyno - Math o gyfradd - Lefel y gyfradd - Graddau daearyddol mewn ardal awdurdod lleol - Esemptiadau - Defnydd o'r refeniw - Adrodd	• Mae ALI yn dewis y sail dros y gyfradd o blith un o'r pedair a restrir yn y blwch uchod. • Penderfynir ar gyfraddau (tâl) yn lleol o fewn ystod benodol. • Pennir rhai esemptiadau yn genedlaethol, gyda disgresiwn i ychwanegu eraill yn lleol (o fewn paramedrau).
-----------------	--	--

Dadansoddiad o'r Opsiynau

Opsiwn 1: Gwneud dim – “Busnes fel arfer” – nid oes gan unrhyw awdurdod y pŵer i gyflwyno ardoll ymwelwyr.

O dan Opsiwn 1, ystyrir yr achos dros fusnes fel arfer lle na chyflwynir deddfwriaeth sylfaenol i gyflwyno pwerau disgresiynol i awdurdodau lleol roi ardoll ymwelwyr ar waith, ac felly lle na all unrhyw awdurdod lleol roi ardoll ymwelwyr ar waith.

Mae'r adran hon yn amlinellu asesiad cychwynnol Llywodraeth Cymru o'r costau a'r manteision sy'n codi i wahanol grwpiau a sectorau os na chyflwynir pŵer i greu ardoll a bennir yn lleol, ac os na all unrhyw awdurdod lleol godi refeniw drwy drethu ymwelwyr dros nos â'u hardal.

Tabl 2: Crynodeb o'r sefyllfa bresennol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r costau, y manteision a'r anfantteision i grwpiau allweddol, gan gynnwys darparwyr llety ymwelwyr, ymwelwyr, awdurdodau lleol, y gymuned fusnes, a thrigolion, sy'n deillio o'r sefyllfa bresennol h.y. nid oes unrhyw bŵer disgrisiynol i awdurdodau lleol roi ardoll ymwelwyr ar waith.

Grŵp	Costau	Manteision	Anfantteision
Darparwyr llety ymwelwyr	Ni fyddai'n ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr fynd i unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol mewn cysylltiad â chasglu ardoll a'i anfon ymlaen. Ni fyddai unrhyw effeithiau ar fasnach yn effeithio ar ddarparwyr llety ymwelwyr.	Ni fyddai'n rhaid iddynt godi na chasglu ardoll ymwelwyr felly byddent yn osgoi unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweinyddu ardoll. Ni fydd effaith negyddol ar refeniw os oedd y penderfyniad i gyflwyno ardoll yn effeithio ar y galw.	Ni fyddai darparwyr llety ymwelwyr yn gweld y manteision o ganlyniad i'r arian a fyddai'n cael ei godi a'i wario yn yr ardal leol i wella'r gwasanaethau a gynigir i ymwelwyr. Pe bai'r gwelliannau hyn yn helpu i gynnal lefel yr ymwelwyr, neu ddenu mwy o ymwelwyr, ni fyddai darparwyr llety ymwelwyr yn gweld y manteision.
Ymwelwyr	Ni fyddai'n rhaid i ymwelwyr dalu ardoll ychwanegol i aros dros nos mewn llety ymwelwyr – ni fyddai unrhyw effaith negyddol bosibl ar wariant nac ymddygiad ymwelwyr.	Ni fydd ychwaith unrhyw ddryswch yn cael ei achosi i ymwelwyr a all wynebu ardoll ymwelwyr mewn un ardal awdurdod lleol ond nid mewn un arall.	Fodd bynnag, ni fyddai ymwelwyr yn gweld manteision yr arian a fyddai'n cael ei godi a'i wario i wella'r gwasanaethau a gynigir i ymwelwyr a thrigolion. Dim gwrthbwysu costau effeithiau ymwelwyr yn rhannol drwy ardoll.
Awdurdod lleol	Ni fyddai awdurdodau lleol yn mynd i gostau ychwanegol sy'n		Efallai y bydd rhai awdurdodau lleol yn parhau i wynebu heriau i

	deillio o ymgynghori ac ymgysylltu ynghylch ardoll, costau sefydlu a chostau gweithredol.		gynnal cyllid i ymateb i'r pwysau sy'n codi o ganlyniad i ymwelwyr Dim ffrwd refeniw ychwanegol i'w ailfuddsoddi'n lleol i gefnogi cymunedau a'r economi ymwelwyr
Y gymuned fusnes (heb gynnwys darparwyr llety ymwelwyr).	Ni fyddai unrhyw effeithiau canlyniadol posibl ar fasnach busnesau o ganlyniad i gyflwyno ardoll. Er enghraifft, y galw yn lleihau oherwydd y defnydd o ardoll.	Dim ymateb negyddol yn ymddygiad ymwelwyr, ni fyddai unrhyw effaith ar y cyfan ar y gymuned fusnes ehangach.	Fel y gwelir mewn enghreifftiau rhyngwladol lle y defnyddir rhyw fath o "ardoll ymwelwyr", ni fyddai busnesau yn gweld y manteision sy'n deillio o'r ffordd y caiff refeniw'r dreth ei wario, lle y gallai'r arian, mewn rhai achosion, gael ei ddefnyddio i wella'r amwynderau lleol a gwella amodau busnes.
Trigolion	Gallai pwysau ar ddarpariaeth cyllid mewn rhai awdurdodau lleol arwain at heriau i gynnal ansawdd a darpariaeth amwynderau cyhoeddus.	Dim ymateb negyddol yn ymddygiad ymwelwyr, ni fyddai unrhyw effaith ar drigolion ar y cyfan.	Nid yw'n helpu i leddfu unrhyw densiynau rhwng trigolion ac ymwelwyr. Colli refeniw a all fod yn fanteisiol i drigolion ac ymwelwyr.

Opsiwn 2: Mwy o gysondeb

Byddai Opsiwn 2 yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol i roi pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ar ymwelwyr sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol, y byddai ei baramedrau yn cael eu nodi o fewn fframwaith canolog sy'n sicrhau cryn gysondeb ledled Cymru.

O dan yr opsiwn hwn, codir yr un math o gyfradd ym mhob ardal (un o'r pedwar is-opsiwn a nodir isod yn Nhabl 4), caiff y gyfradd ei nodi mewn deddfwriaeth a byddai'r un gyfradd ym mhob awdurdod lleol sy'n cyflwyno'r ardoll. Bydd rhai esemptiadau cyfyngedig a nodir mewn deddfwriaeth, ond ni fyddai unrhyw esemptiadau eraill yn cael eu cymhwyso, ac ni fyddai awdurdod lleol yn gallu esemptio math penodol o arhosiad. Pe bai awdurdod lleol yn dewis cyflwyno ardoll ymwelwyr, byddai gofynion adrodd penodol ynglŷn â pha refeniw sydd wedi cael ei godi a ble mae wedi cael ei wario. Byddai gan awdurdodau lleol lai o annibyniaeth i benderfynu sut y câi refeniw ei ddefnyddio drwy glustnodi refeniw at ddibenion penodol.

Byddai'r fframwaith canolog yn sicrhau cysondeb o ran pa ardollau ymwelwyr a gymhwysir gan awdurdodau lleol, yn enwedig o ran y canlynol:

- Mae'r gweithgarwch trethadwy at ddibenion ardoll ymwelwyr wedi'i gyfyngu i arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol, a'r darparwr llety ymwelwyr fydd y parti sy'n atebol am yr ardoll ymwelwyr.
- Math cyffredin o gyfradd. Mae'r papur ymgynghori yn nodi'r math o gyfradd a allai fod yn un o bedwar model. Mae'r asesiad effaith hwn yn ystyried rhinweddau ac effeithiau posibl yr opsiynau a nodir isod yn fanylach yn **Nhabl 4**.
- Byddai'r un gyfradd/cyfraddau ardoll ymwelwyr yn cael ei chodi/eu codi ym mhob awdurdod lleol.
- Byddai'r un gyfradd/cyfraddau yn cael ei chymhwyso/eu cymhwyso drwy'r awdurdod lleol cyfan fel uned ddaearyddol (dim cyfraddau amrywiol lleol iawn).
- Byddai esemptiadau yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai gan awdurdodau lleol unrhyw hyblygrwydd i gyflwyno esemptiadau pellach.
- Byddai refeniw yn cael ei glustnodi tuag at ddibenion penodol.
- Byddai'r awdurdod treth (a allai hefyd fod yn awdurdod lleol neu'n awdurdod canolog sy'n lletya'r gwasanaeth) yn atebol am gasglu, dosbarthu a gweinyddu'r ardoll. Mae'r opsiwn hwn yn fwy addas ar gyfer model gweithredu mwy canoledig gydag awdurdod treth canoledig yn cyflawni swyddogaethau ar ran awdurdodau lleol eraill.
- Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi cyfrif yn gyhoeddus am y ffordd y caiff y refeniw a godir ei ddyrannu.

Tabl 3: Costau a manteision ar gyfer Opsiwn 2, mwy o gysondeb (llai o annibyniaeth leol)

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r costau, y manteision a'r anfanteision i grwpiau allweddol, gan gynnwys darparwyr llety ymwelwyr, ymwelwyr, awdurdodau lleol, y gymuned fusnes a thrigolion pe bai awdurdodau lleol yn cael pŵer i gyflwyno ardoll ymwelwyr, y mae ei baramedrau wedi'u nodi'n ganolog.

Grŵp	Costau	Manteision	Anfanteision
Llety Ymwelwyr	Costau newydd sy'n codi i ddarparwyr llety ymwelwyr mewn ardaloedd lle y cyflwynir ardoll ymwelwyr mewn tri phrif faes: 1. Costau sefydlu sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r ardoll ymwelwyr newydd. 2. Costau gweinyddol a chydymffurfio parhaus, gan gynnwys hysbysu ymwelwyr am ofynion yr ardoll. 3. Costau sy'n gysylltiedig â newidiadau posibl yn ymddygiad ymwelwyr a allai gael effaith negyddol o bosibl ar broffidioldeb a chystadleurwydd.	• Mantais anuniongyrchol yn deillio o benderfyniadau awdurdodau lleol i fuddsoddi yn yr amwynderau cyhoeddus. • Gall fod effaith gadarnhaol ar ganfyddiadau ymwelwyr drwy fanteision amlwg sy'n deillio o ddefnyddio'r refeniw. • Byddai'n fanteisiol i ddarparwyr llety ymwelwyr sy'n gweithredu mewn ardaloedd awdurdod lleol gwahanol pe bai dull gweithredu cyson ar waith drwy fframwaith canolog. • Byddai'r broses hunanasesu a chyfrifo yn symlach o dan y senario hwn o gymharu â sawl math o gyfradd, lefel cyfraddau ac esemptiadau.	• Efallai y bydd darparwyr llety ymwelwyr yn addasu cynlluniau buddsoddi a recriwtio pe baent yn canfod bod y costau sy'n gysylltiedig â chyflawni tasgau ychwanegol mewn perthynas â'r angen i gydymffurfio â'r ardoll yn rhy uchel. • Mae risg y gall darparwyr llety ymwelwyr ddewis gadael y farchnad wrth ystyried y gofynion ychwanegol yn eu cyfanrwydd ynghyd â newidiadau rheoliadol ehangach (trwyddedu statudol, newidiadau i drothwyon ardrethi annomestig, newidiadau i ofynion cynllunio). • Gall ardoll fod yn ddatgymhelliad i ddarparwyr newydd a mewnffuddsoddi mewn rhannau o Gymru sy'n codi ardoll os yw'n haws cynnal busnes mewn

Grŵp	Costau	Manteision	Anfanteision
			cyrchfannau cystadleuol nad ydynt yn codi ardoll. • Byddai'r un gyfradd yn cael ei chodi ym mhob cyrchfan ond gall sensitifrwydd i bris amrywio o ranbarth i ranbarth ac felly bydd effeithiau yn amrywio. Ond gall cyfradd a bennir yn lleol gyd-fynd â phrisiau a sensitifrwydd i bris yn lleol. • Gall y ffordd y buddsoddir refeniw amrywio o ardal i ardal er bod refeniw yn cael ei gasglu yn yr un ffordd.
Ymwelwyr	• Gall gynyddu'r pris a delir am lety ymwelwyr os bydd darparwyr llety ymwelwyr yn dewis trosglwyddo'r costau. Noder y gall darparwyr llety ymwelwyr benderfynu lleihau cost y llety ei hun er mwyn gwrthbwysu'r ardoll, ond mai'r ymwelydd fyddai'n talu'r ardoll ei hun o hyd.	• Gallent gael mantais uniongyrchol o fuddsoddiad awdurdod lleol mewn gwelliannau i'r ardal gyhoeddus a'i chynnal a'i chadw. • Gall y defnydd o refeniw annog ymwelwyr (a'u hannog i ddychwelyd) a gwella profiad ymwelwyr. • Gwella ymwybyddiaeth o effaith ymwelwyr ac annog twristiaeth fwy cynaliadwy.	• Newid posibl yn ymddygiad ymwelwyr sy'n adweithio i brisiau uwch o ganlyniad i ychwanegu ardoll ymwelwyr. Er enghraifft, efallai y bydd ymwelwyr yn dewis cyrchfannau amgen neu wario llai wrth ymwelyd â'r rhannau o Gymru sydd wedi cyflwyno ardoll.

Grŵp	Costau	Manteision	Anfanteision
		Tryloywder o ran sut y caiff yr arian ei wario i ymwelwyr a phrofiad unffurf o dalu'r ardoll mewn gwahanol rannau o Gymru.	
Awdurdod treth (*rhagor o fanylion isod)	- Byddai'r dull o gasglu'r ardoll ymwelwyr yn gofyn am fynd i'r costau a nodir isod a fyddai'n angenrheidiol pa fodel fframwaith bynnag a gâi ei ddefnyddio (lleol, cenedlaethol neu gyfuniad o'r ddau), ond byddai'n amrywio yn dibynnu ar y model a fabwysiedir. Mae'n werth nodi yma fod rhai elfennau o'r seilwaith, yr adnoddau a'r dulliau o bosibl yn bodoli eisoes mewn awdurdodau lleol – felly efallai y bydd achosion lle na fyddai angen datblygu systemau o'r newydd. Hefyd, os felly, yna mae'n debygol y byddai angen buddsoddiad o hyd ond am gost is o bosibl. - costau sefydlu ymlaen llaw - Costau parhaus megis costau staff a chostau gweithredu cyffredinol (rhagor o fanylion isod).	Gallai fframwaith canolog leihau rhai o'r costau sefydlu a gweinyddu hyn drwy safoni'r ffordd y gweinyddir ardollau ymwelwyr.	

Grŵp	Costau	Manteision	Anfanteision
	- Costau monitro a gorfodi - rhoi gweithdrefnau newydd ar waith ar gyfer casglu a rhagweld refeniw. - hysbysu darparwyr llety ymwelwyr am ofynion ardoll ymwelwyr.		
Awdurdodau lleol (*rhagor o fanylion isod)	• Cyn penderfynu cyflwyno ardoll ymwelwyr, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â busnesau, trigolion a rhanddeiliaid lleol a chydymffurfio â'r amodau a fynegir drwy'r fframwaith canolog. Costau sy'n gysylltiedig ag ymgynghori, ymgysylltu a gwneud penderfyniadau.	• Byddai'n cynhyrchu refeniw o ffynhonnell cyllid ychwanegol, a fyddai'n cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i flaenoriaethau lleol. • Byddai amodau'n glir ynglŷn â'r hyn y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei wneud cyn penderfynu cyflwyno ardoll ymwelwyr. Mae hyn yn cynnig dull cysondeb a thegwch o ran dull gweithredu.	• Efallai na fydd y gyfradd unigol a nodir mewn deddfwriaeth yn cydfynd yn dda â'r hyn y byddai awdurdod lleol penodol yn dewis ei bennu, na'r amodau lleol. • Gall y refeniw posibl fod yn is drwy anallu i benderfynu ar y math o gyfradd a lefel cyfradd a'r ardal ddaearyddol lle mae'n gymwys. • Efallai y bydd amgylchiadau lleol yn codi lle mae esemptiadau disgresiynol yn briodol. Heb y pwerau i wneud hynny, efallai y bydd effeithiau annisgwyl o senarios nas rhagwelwyd lle y dylai esemptiad fod yn gymwys. • Gallai diffyg hyblygrwydd o ran refeniw gwariant arwain at

Grŵp	Costau	Manteision	Anfanteision
			ganlyniadau llai ffafriol yn lleol pe bai unrhyw glustnodi'n rhy gaeth. Gallai hyblygrwydd lleol cyfyngedig olygu nad yw awdurdodau lleol yn atebol am benderfyniadau.
Y gymuned fusnes (heb gynnwys darparwyr llety ymwelwyr)	Costau cydymffurfio.	Mantais uniongyrchol ac anuniongyrchol yn deillio o benderfyniadau awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith sy'n cefnogi twristiaeth.	Gallai fod effaith negyddol ar y gymuned fusnes ehangach drwy lai o drosiant ac elw, pe bai'r ardoll ymwelwyr yn arwain at lai o wariant ategol gan ymwelwyr neu lai o ymwelwyr.
Trigolion	Dim costau uniongyrchol (ond gweler o dan y colofnau manteision ac anfanteision ar gyfer effeithiau anuniongyrchol posibl).	Mantais uniongyrchol o fuddsoddiad i gynnal a chadw a gwella'r ardal leol drwy fwy o refeniw a gwariant gan yr awdurdod lleol.	- Gallai fod effaith negyddol ar drigolion hefyd, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae dibyniaeth uchel ar ymwelwyr am gyflogaeth, pe bai gwariant is gan ymwelwyr yn arwain at lai o swyddi'n lleol, gan arwain at lai o wariant lleol a lefel is o weithgarwch economaidd. - Newid posibl yn ymddygiad ymwelwyr sy'n adweithio i brisiau uwch o ganlyniad i ychwanegu ardoll ymwelwyr. Er enghraifft, gall unigolion esgusodi eu

Grŵp	Costau	Manteision	Anfanteision
			hymddygiad cymdeithasol annerbyniol eu hunain sy'n effeithio ar nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus drwy'r cyfiawnhad eu bod wedi talu ardoll.

Opsiwn 3: Mwy o annibyniaeth leol

Byddai Opsiwn 3 yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol i roi pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ar ymwelwyr sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol, y mae ei baramedrau'n cael eu pennu'n lleol ar y cyfan. Pe bai awdurdodau lleol yn defnyddio'r pŵer hwn, gallai nodweddion dyluniad megis y math o gyfradd, y gyfradd a godir ac esemptiadau a weithredir amrywio rhwng awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan. Er y bydd disgwyl i awdurdodau lleol ddefnyddio refeniw i ariannu seilwaith a gwasanaethau sy'n ymwneud â thwristiaeth, ac wrth gyfrifo am y defnydd o refeniw, gall yr opsiwn hwn arwain at lai o gysondeb yn hyn o beth o gymharu â fframwaith a bennir ar sail fwy cenedlaethol lle byddai ardoll yn gweithredu.

Yn fwy penodol, prif nodweddion yr opsiwn hwn yw:

- Mae'r gweithgarwch trethadwy at ddibenion ardoll ymwelwyr wedi'i gyfyngu i arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr a osodir yn fasnachol, a'r darparwr llety ymwelwyr fydd y parti sy'n atebol am yr ardoll ymwelwyr (fel opsiwn 2).
- Awdurdodau lleol sy'n penderfynu ar y broses lywodraethu i gyflwyno'r ardoll ymwelwyr, gan gymhwyso gofynion statudol sy'n bodoli eisoes a gofynion eraill.
- Fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, cred Llywodraeth Cymru y dylai math cyffredin o gyfradd gael ei bennu'n genedlaethol. Fodd bynnag, o dan Opsiwn 3, gallai awdurdodau lleol ddewis unrhyw un o'r opsiynau a nodir yn yr ymgynghoriad.
- Byddai cyfradd ardoll ymwelwyr yn cael ei phennu'n lleol.
- Gall cyfradd ardoll ymwelwyr amrywio o fewn ardal awdurdod lleol (er enghraifft codi cyfraddau uwch neu is am leoliadau penodol).
- Er y bydd disgwyl i awdurdodau lleol ddefnyddio'r refeniw a godir drwy ardoll ymwelwyr i ariannu gweithgarwch sy'n fanteisiol o ran profiad ymwelwyr ac ymgynghori â rhanddeiliaid lleol yn y broses hon, ni fydd unrhyw ofynion ffurfiol yn cael eu nodi mewn fframwaith cenedlaethol. Gallai hyn arwain at arferion gwahanol yn cael eu datblygu mewn ardaloedd awdurdod lleol gwahanol yn hyn o beth, yn ddarostyngedig i'r gofyniad cyffredinol y byddai'n rhaid i unrhyw refeniw a godir ariannu gwariant awdurdodau lleol.
- Byddai arferion adrodd ar refeniw sy'n cael ei godi a'i wario ar gyfer yr ardoll yn cael eu pennu'n lleol.
- Fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, cred Llywodraeth Cymru y dylai rhai esemptiadau gael eu nodi'n genedlaethol. Fodd bynnag, o dan Opsiwn 3, byddai gan awdurdodau lleol hyblygrwydd i gyflwyno rhagor o esemptiadau yn ychwanegol at y rhai a bennir yn genedlaethol.
- Mae'r opsiwn hwn yn fwy addas ar gyfer proses weithredu fwy lleol gan awdurdodau lleol (casglu, gorfodi a gweinyddu) am y byddai mwy o annibyniaeth leol i lunio'r rheolau.

Tabl 4: costau a manteision ar gyfer Opsiwn 3, mwy o annibyniaeth leol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r costau, y manteision a'r anfoneision i grwpiau allweddol, gan gynnwys darparwyr llety ymwelwyr, ymwelwyr, awdurdodau lleol, y gymuned fusnes a thrigolion pe bai awdurdodau lleol yn cael pŵer i gyflwyno ardoll ymwelwyr, y mae ei baramedrau wedi'u nodi'n lleol.

Grŵp	Costau	Manteision	Anfoneision
Darparwyr llety ymwelwyr	- Fel yn achos Opsiwn 2, mae costau newydd yn codi mewn tri maes: 1. Costau sefydlu sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r ardoll ymwelwyr newydd. 2. Costau gweinyddol a chydymffurfio parhaus, gan gynnwys hysbysu ymwelwyr am ofynion yr ardoll. 3. Costau sy'n gysylltiedig â newidiadau posibl yn ymddygiad ymwelwyr a allai gael effaith negyddol o bosibl ar broffidioldeb a chystadleurwydd - O gymharu ag Opsiwn 2, gallai penderfyniadau mwy lleol ar gyfraddau uwch arwain at gostau uwch ar ddarparwyr llety ymwelwyr (pe baent yn dewis	O gymharu ag Opsiwn 2, mae awdurdodau lleol yn deall amgylchiadau a busnesau yn well, a fyddai'n eu galluogi i gyflwyno math o gyfradd a lefel cyfradd a all fod yn fwy addas i'r ardal leol.	- Gwaith ychwanegol i sicrhau y gall systemau rheoli eiddo brosesu taliadau treth a'u hanfon ymlaen ar gyfer sawl cynllun gwahanol. - Byddai darparwyr llety ymwelwyr sydd ag eiddo mewn ardaloedd awdurdod lleol gwahanol yn wynebu systemau treth a gofynion gwahanol o bosibl o gymharu ag Opsiwn 2. - O gymharu ag Opsiwn 2, mae mwy o botensial i ystumio'r farchnad na photensial un dull o godi'r ardoll y cytunir arno'n genedlaethol. Gallai cyfraddau uwch hefyd leihau gwariant ymwelwyr a niferoedd ymwelwyr. Noder y gallai rhai ALLau ddewis cyfraddau is i ymddangos yn fwy cystadleuol nag ALLau cyfagos.

Grŵp	Costau	Manteision	Anfanteision
	amsugno'r costau yn eu prisiau). • O gymharu ag Opsiwn 2, mae potensial ar gyfer costau cynyddol pe bai ardollau ymwelwyr gwahanol yn cael eu datblygu mewn ardaloedd awdurdod lleol gwahanol h.y. i'r darparwyr llety ymwelwyr hynny sy'n gweithredu mewn mwy nag un ardal oherwydd cymhlethdod cynyddol cyfrifo a llenwi ffurflenni treth. • I'r rhai y mae eu swyddogaethau cyfrifo yn cael eu cyflawni gan drydydd parti dan gontract mae potensial ar gyfer costau uwch o ganlyniad i'r lefelau gwahanol sy'n weithredol mewn ardaloedd awdurdod lleol gwahanol, a hynny am y byddai'n achosi mwy o gymhlethdod ac felly mwy o oriau bilio gan y trydydd partion hynny sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon.		

Grŵp	Costau	Manteision	Anfanteision
Ymwelwyr	Cynnydd neu ostyngiad posibl mewn costau pe bai ardollau ymwelwyr gwahanol yn cael eu datblygu mewn ardaloedd awdurdod lleol gwahanol.	Gallai cyfraddau amrywio yn ôl ardal, gydag ymwelwyr yn talu cyfradd sy'n fwy cyson â chostau ehangach eu hymweliad.	- Mwy o ddryswch i ymwelwyr a allai wynebu ardollau ymwelwyr gwahanol mewn ardaloedd gwahanol. - Newid posibl yn ymddygiad ymwelwyr sy'n adweithio i brisiau uwch o ganlyniad i ychwanegu ardoll ymwelwyr. Er enghraifft, efallai y bydd ymwelwyr yn dewis cyrchfannau amgen neu wario llai o arian os a phryd y maent yn ymweld â rhannau o Gymru lle y codir yr ardoll. - Llai o dryloywder o bosibl o ran sut y caiff reffeniw a godir ei wario ac anghysondeb o ran sut y darperir yr wybodaeth hon.
Awdurdodau Lleol		- Annibyniaeth i bennu cyfraddau sy'n fwy perthnasol i'r ardal leol, gan gyfrif am amrywiadau mewn prisiau rhanbarthol a sensitifrwydd i bris, a'u galluogi i ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithiol. - Gall awdurdodau lleol wario reffeniw yn unol â blaenoriaethau ac anghenion lleol yn hytrach na chael eu cyfyngu gan ddeddfwriaeth. Gall awdurdodau	- Anghysondeb o bosibl o ran sut y caiff y defnydd o reffeniw a godir ei gofnodi os nad yw'n safonol (o gymharu ag Opsiwn 2). - Pe bai awdurdodau lleol yn cyflwyno esemptiadau ychwanegol, yna byddai mwy o gostau cydymffurfio a chostau gweinyddu uwch o bosibl.

Grŵp	Costau	Manteision	Anfanteision
		Ileol ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithiol. Gall awdurdodau lleol gynhyrchu lefelau uwch o refeniw o bosibl drwy fwy o annibyniaeth. Mae penderfyniadau ar yr ardoll lleol yn cael eu gwneud yn agosach i'r busnesau a'r cymunedau yr effeithir arnynt.	
Awdurdodau Treth *mae'r model hwn yn tybio y byddai'n fwy rhesymegol i'r awdurdod lleol sy'n cyflwyno'r ardoll fod yn gyfrifol am y broses weithredu yn hytrach na gwasanaeth canolog.	- Fel yn achos Opsiwn 2, byddai'r dull o gasglu'r ardoll ymwelwyr yn gofyn am fynd i'r costau a nodir isod – byddai angen mynd i'r costau hyn ni waeth pa opsiwn a gâi ei ddewis a hynny ble maent yn codi a bydd maint y costau yn amrywio: - costau sefydlu ymlaen llaw - costau parhaus megis costau staff a chostau gweithredu cyffredinol (rhagor o fanylion isod). - costau monitro a gorfodi. - rhoi gweithdrefnau newydd ar waith ar gyfer casglu a rhagweld refeniw.	Mae systemau casglu treth lleol yn bodoli ym mhob awdurdod lleol ac maent yn cynnwys gwybodaeth am fusnesau lleol a all gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau lleol o ran yr ardoll.	

Grŵp	Costau	Manteision	Anfanteision
	hysbysu darparwyr llety ymwelwyr am ofynion ardoll ymwelwyr		
Y gymuned fusnes	Dim costau uniongyrchol.	Refeniw cynyddol yn effeithio'n anuniongyrchol ar y gymuned fusnes drwy welliannau i wasanaethau lleol.	Potensial i'w gwneud yn fwy tebygol y bydd gwariant is gan ymwelwyr (yn yr ardaloedd hynny lle ceir cyfraddau uwch) yn cael effaith negyddol ar drosiant busnes (i ddarparwyr llety ymwelwyr a'r gymuned fusnes ehangach).
Trigolion	Dim costau uniongyrchol	- Gallai Opsiwn 3 arwain at fanteision ychwanegol i drigolion o gymharu ag Opsiwn 2 am na fyddai cyfyngiad ar awdurdodau lleol o ran y gyfradd y maent yn dewis ei phennu. - Potensial i godi mwy o refeniw pe bai cyfradd uwch yn cael ei phennu – mwy o arian yn cael ei wario ar wasanaethau lleol. Ond dylid nodi na ellir gwarantu y byddai cyfradd uwch yn golygu refeniw uwch (oherwydd llai o enillion a'r potensial y bydd ymddygiad ymwelwyr yn newid).	Efallai y bydd effaith ar gyflogaeth leol os bydd y galw neu wariant lleol gan ymwelwyr yn lleihau'n sylweddol.

Grŵp	Costau	Manteision	Anfanteision
		Atebolrwydd uniongyrchol i drigolion am bennu a chasglu ardoll a sut y defnyddir y refeniw.	

Cymharu opsiynau

Yn dilyn y dadansoddiad lefel uchel o'r costau a'r manteision a roddir yn Nhabl 3 a Thabl 4 uchod, rhoddir crynodeb cymharol yma sy'n seiliedig ar y costau, y manteision a'r anfantseision a nodwyd i'r gwahanol grwpiau.

Darparwyr llety ymwelwyr:

O dan y ddau opsiwn, bydd darparwyr llety ymwelwyr yn wynebu costau sefydlu a chostau gweinyddol parhaus o ganlyniad i gyflwyno ardoll ymwelwyr. Gallai costau sefydlu gynnwys:

- newidiadau i systemau rheoli eiddo/systemau archebu llety (newidiadau i feddalwedd) er mwyn prosesu taliadau ardoll ymwelwyr
- costau mewn perthynas â chasglu data newydd a chadw cofnodion yn ychwanegol at yr hyn sydd eisoes ar waith.
- costau sy'n gysylltiedig â phrosesau newydd i anfon trethi ymlaen
- costau sy'n gysylltiedig â hyfforddi staff ar brosesau newydd
- costau gweinyddu parhaus y gellir hefyd fynd iddynt mewn perthynas â phrosesau taliadau rheolaidd megis yr amser prosesu ychwanegol y bydd ei angen.

Mae'n werth nodi bod busnesau bach yn annhebygol o fod wedi'u cofrestru ar gyfer TAW felly bydd hyn yn ddata newydd ac, i lawer ohonynt, dyma'r tro cyntaf y bydd yn rhaid iddynt gasglu a chofnodi'r wybodaeth hon, felly efallai na fydd gan rai darparwyr llety ymwelwyr weithdrefnau casglu data cadarn ar waith, na'r mesurau angenrheidiol a chadarn i sicrhau diogelwch gwybodaeth, a fyddai'n gost ychwanegol arall iddynt.

Bydd maint y costau hyn yn debygol o amrywio yn ôl maint y darparwr llety ymwelwyr a'r math o ddarparwr llety ymwelwyr: er enghraifft, efallai y byddant yn faich mwy sylweddol i westai bach, llety hunanddarpar neu lety gwely a brecwast na'r cadwyni gwesty mwy o faint. Mae hyn yn debygol o effeithio ar ddau faes. Yn gyntaf, mae'r amser sy'n gysylltiedig â bilio a derbyn a phrosesu taliadau yn debygol o gynyddu (ond ni ddylai fod yn gynnydd sylweddol). Yn ail, bydd mwy o effaith o ran cyflwyno ffurflen dreth i'r awdurdod treth a gwneud unrhyw daliadau cysylltiedig. Mae'n debygol y byddai llai o effaith uniongyrchol i ddarparwyr sydd eisoes wedi penodi asiant trydydd parti i reoli eu materion treth neu sy'n cyflogi rhywun yn y rôl hon (h.y. cyfrifydd neu lyfrifwr), ond efallai y bydd costau cysylltiedig uwch lle mae'r gwaith yn cael ei wneud o dan contract allanol (megis amser/oriau bilio ychwanegol). Fel arall, lle mae'r swyddogaethau cyfrifyddu yn cael eu cyflawni gan y perchennog, bydd effaith uniongyrchol ar amser/llwyth gwaith i ymgymryd â'r gweithgarwch gweinyddol hwn.

Gallai cyfradd uwch neu gyfradd is fod yn daladwy gan ddarparwyr llety ymwelwyr yn y naill opsiwn a'r llall. Er enghraifft, efallai y bydd cyfradd a bennir yn ganolog yn uwch neu'n is na chyfradd a bennwyd yn lleol. Gallai cyfradd uwch arwain at gostau uwch i ddarparwyr llety ymwelwyr a all ddewis amsugno'r costau neu eu trosglwyddo i ymwelwyr i'w talu, sy'n effeithio ar gystadleurwydd a phroffidioldeb yn y sector.

Gall ffynhonnell gynyddol ychwanegol o gost i ddarparwyr llety ymwelwyr godi o ran y taliadau comisiwn y mae gweithredwyr gwestai yn eu talu i drydydd partion fel trefnwyr gwyliau ar-lein sydd fel arfer yn seiliedig ar gyfran o gyfradd yr ystafell gan

gynnwys trethi. Mae'r rhan fwyaf o drefnwyr gwyliau ar-lein yn gweithredu ar sail fyd-eang ac felly mae eu llwyfannau eisoes yn gallu ymgorffori gofynion ardoll ymwelwyr gan eu bod yn gwneud hynny eisoes mewn awdurdodaethau eraill.

O dan Opsiwn 2, yr un fyddai'r prosesau cyflwyno, gan sicrhau dull gweithredu teg ymhlith awdurdodau lleol. Gallai Opsiwn 3 arwain at brosesau cyflwyno gwahanol, er enghraifft, efallai y bydd rhai ardaloedd yn dewis ymgynghori'n lleol drwy ymgynghoriad ffurfiol, ac efallai na fydd eraill yn gwneud hynny. Mae awdurdodau lleol eisoes yn dilyn proses sefydledig, drylwyr i wneud penderfyniadau yn effeithiol a fyddai'n sicrhau ymgysylltu a thrafodaethau priodol cyn gwneud unrhyw benderfyniad i roi ardoll ymwelwyr ar waith, Efallai y bydd Opsiwn 2 yn gosod gofynion ychwanegol fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau hon na fyddant yn ofynnol o bosibl ar lefel lleol. Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i ddeall anghenion eu cymunedau lleol ac felly mae Opsiwn 3 yn galluogi prosesau sy'n bodoli eisoes a dulliau sefydledig o ymgysylltu i gefnogi'r broses gwneud penderfyniadau.

Efallai y byddai Opsiwn 2 (mwy o gysondeb) yn ei gwneud yn haws i roi gwybodaeth am ardoll ymwelwyr i ymwelwyr gan y byddent yn talu'r un math o ardoll a'r un gyfradd. Gallai hyn o bosibl leihau unrhyw ddryswch ymhlith darparwyr llety ymwelwyr gan y byddai'r gofynion yr un fath ym mhob awdurdod lleol.

Fodd bynnag, o dan Opsiwn 3 (mwy o annibyniaeth lleol) gellid sicrhau mwy o ymgysylltu lleol a mwy o fewnbwn lleol yn y broses o ddylunio ardoll fwy penodol i'r ardal lleol. Gallai hyn arwain at gyfradd sy'n fwy addas i ardal awdurdod lleol. Felly, gallai proses fwy lleol o wneud penderfyniadau ynglŷn ag ardoll fod yn fuddiol i ddarparwyr llety ymwelwyr gan y gallai'r gyfradd gyd-fynd yn well â phrisiau lleol a blaenoriaethau lleol. Ni fyddai hyn yn bosibl o dan Opsiwn 2 gan na fyddai modd pennu cyfraddau lleol.

Gallai Opsiwn 2 arwain at lai o gymhlethdod i asiantau trydydd parti, llwyfannau archebu llety a systemau gwybodaeth, gan leihau o bosibl unrhyw gostau a drosglwyddir o ganlyniad i ardoll. Ond gallai Opsiwn 3 arwain at gostau cysylltiedig uwch yn yr ardaloedd hyn pe bai cryn dipyn o amrywio rhwng awdurdodau lleol sy'n dewis cyflwyno ardoll.

Dylid nodi y gallai'r ffaith y bydd y math o gyfradd yn gyson rhwng ardaloedd gwahanol o dan Opsiwn 2 leihau'r posibilrwydd o ddryswch a chymhlethdod gweinyddol yn deillio o ardollau ymwelwyr sydd wedi'u dylunio'n wahanol. Er enghraifft, lle mae darparwr llety ymwelwyr yn gweithredu ar draws nifer o awdurdodau lleol sy'n gweithredu ardoll fwy annibynnol, mae hyn yn cynyddu'r nifer posibl o amrywiadau ar yr ardoll y byddai'n rhaid i'r darparwr llety ymwelwyr eu gweinyddu. Gall mwy o gymhlethdod arwain at fwy o wallau a baich gweinyddol cynyddol i ddatrys y problemau hyn.

Mae'r posibilrwydd y bydd awdurdodau lleol gwahanol yn datblygu ardollau ymwelwyr gwahanol (o dan Opsiwn 3) hefyd yn golygu costau uwch o bosibl i ddarparwyr llety ymwelwyr sy'n gweithredu mewn mwy nag un ardal. Er enghraifft, efallai y byddai'n rhaid i ddarparwyr llety ymwelwyr sicrhau bod eu systemau rheoli eiddo yn gallu prosesu taliadau treth a'u hanfon ymlaen ar gyfer sawl cynllun gwahanol. Gallai model lleol olygu bod awdurdodau lleol gwahanol yn casglu gwybodaeth wahanol i lywio gwaith dadansoddi neu esemptiadau. Gallai hyn fod yn faich ychwanegol ar ddarparwyr llety ymwelwyr os oes ganddynt eiddo mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol.

Ymwelwyr:

Byddai ymwelwyr sy'n aros mewn llety ymwelwyr mewn awdurdodau lleol lle y codir ardoll, yn talu swm yr ardoll sy'n ddyledus am eu harhosiad. Gallai ymwelwyr wynebu costau cynyddol pe bai darparwyr llety ymwelwyr yn dewis cynyddu cost yr arhosiad er mwyn cyfrif am unrhyw gostau ychwanegol a achosir gan yr ardoll ymwelwyr. Fel arall, efallai y bydd busnesau yn dewis lleihau eu cyfraddau i gyfrif am godi ardoll ymwelwyr, a thrwy hynny leihau effaith y gost ar ymwelwyr i'r eithaf drwy amsugno'r gost yn y busnes.

Gallai prisiau uwch i ymwelwyr arwain at newidiadau yn ymddygiad ymwelwyr, megis ymwelwyr yn gwario llai o arian yn yr economi leol, lleihad yn nifer y nosweithiau y mae ymwelwyr yn dewis aros yn yr awdurdod lleol ac, mewn achosion eithafol, gallai ardoll ymwelwyr ar gyfradd ddigon uchel beri i ymwelwyr ddewis mynd i gyrchfannau amgen. Fel y nodir yn gynharach yn yr asesiad effaith hwn, amcangyfrifir mai elastigedd pris y galw am lety twristiaeth yng Nghymru yw -0.7. Gallai cynnydd o 1% mewn pris arwain at ostyngiad o 0.7% yn y galw. Fodd bynnag, gallai'r defnydd ehangach o refeniw a godir a'r fantais sy'n deillio ohono wrthbwysu'r effaith hon. Bydd y graddau y bydd ardoll ymwelwyr yn effeithio ar ymwelwyr yn dibynnu ar lefel y gyfradd a bennir. Yn dibynnu ar ba mor hawdd fydd y broses o dalu ardoll ymwelwyr a'i dryloywder, efallai y bydd ymwelwyr yn wynebu mwy o anghyfleustra hefyd, ond, mae'n hyn yn debygol o gael ei liniaru oherwydd cysondeb yn ganolog o ran y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cymhwyso ardollau ymwelwyr o dan Opsiwn 2.

Gallai Opsiwn 2 fod yn llai dryslyd i ymwelwyr am y byddent yn talu'r un math o ardoll a'r un gyfradd, ni waeth ble mae'r awdurdod lleol/y cyrchfan. Ni fyddai ymwelwyr yn sylwi ar unrhyw wahaniaeth rhwng cyrchfannau. Mae hyn yn atal unrhyw ddryswch o ran negeseuon ac yn helpu ymwelwyr i ddeall faint o ardoll y maent yn ei dalu a'r rhesymeg drosto.

O dan Opsiwn 3, byddai'r manteision i ymwelwyr yn dibynnu ar y ffordd y mae awdurdodau lleol yn dewis buddsoddi'r refeniw a godir. Mae Opsiwn 2 yn awgrymu ardoll a glustnodir; byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i unrhyw refeniw a godir gael ei wario ar weithgarwch sydd wedi'i gysylltu'n benodol â maes gwariant. Gall hyn wella dealltwriaeth o'r ffordd y defnyddir ardoll ond nid yw clustnodi o reidrwydd yn arwain at lefelau uwch o wariant yn y maes penodol hwnnw a gall gyfyngu ar benderfyniadau lleol. Efallai y bydd manteision i ymwelwyr o dan y naill opsiwn neu'r llall, ond gellid dadlau bod cysylltiad cliriach os caiff cyllid ei neilltuo.

O dan Opsiwn 3, bydd llai o gysondeb cenedlaethol o bosibl o ran sut y dylai refeniw o'r fath gael ei ddyrannu a sut mae awdurdodau lleol yn cyfrif yn gyhoeddus am y ffordd y byddai refeniw a godir yn cael ei ddyrannu. Byddai'r broses adrodd o dan Opsiwn 2 yn sicrhau bod ymwelwyr yn cael gwybodaeth ynglŷn â sut mae refeniw wedi cael ei godi a ble mae wedi cael ei wario mewn ffordd safonol. Byddai hyn yn rhoi cysondeb i ymwelwyr sy'n chwilio am yr wybodaeth hon er mwyn eu helpu i ddeall sut mae'r ardoll wedi bod yn fanteisiol i'r ardal.

Awdurdod treth:

O dan y ddau opsiwn, byddai'r awdurdod treth yn mynd i gostau sefydlu cychwynnol a chostau darparu gwasanaeth parhaus sy'n gysylltiedig â gweithredu ardoll ymwelwyr. Fodd bynnag, pe bai gwasanaeth a gynhelir yn ganolog yna, gallai'r rhai o'r costau hyn gael eu rhannu rhwng awdurdodau lleol. Byddai'r rhain yn cynnwys

costau staff parhaus sy'n gysylltiedig â chasglu refeniw, rhoi cymorth ac arweiniad yn barhaus i drethdalwyr drwy ymgysylltu, cynorthwyo a chadw cofnod o drethdalwyr³⁷, llunio rhagolygon refeniw, monitro ffigurau alldro refeniw, paratoi adroddiadau ar y defnydd o refeniw, a chostau parhaus sy'n gysylltiedig â rhoi gwybod i ddarparwyr llety ymwelwyr ac ymwelwyr am unrhyw newidiadau i'r ffordd y gweithredir yr ardoll ymwelwyr ac atebolrwyddau sy'n gysylltiedig â'r ardoll, gofynion esemptio ac anfon ymlaen, a hefyd sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data berthnasol ar yr un pryd. Byddai costau parhaus hefyd yn codi mewn cysylltiad â darparu a chynnal unrhyw systemau digidol, p'un a ydynt yn cael eu datblygu'n fewnol neu drwy benodi trydydd partïon.

Byddai costau monitro a gorfodi yn codi. Er enghraifft, efallai y bydd angen i'r awdurdod treth archwilio cofnodion defnydd llety a data eraill a ddelir gan ddarparwyr llety ymwelwyr. Hefyd, bydd costau yn gysylltiedig â sefydlu a gweithredu prosesau apelïadau, a chostau rheoli dyled/gorfodi er mwyn ymdrin ag achosion o beidio â thalu yn unol â'r atebolrwydd i dalu.

Mae Opsiwn 2 yn addas ar gyfer awdurdod canolog sy'n darparu gwasanaethau ar ran awdurdodau lleol er mwyn cyflwyno ardoll ymwelwyr (megis awdurdod lleol neu Awdurdod Cyllid Cymru er enghraifft), a hynny am y gallai dull gweithredu mwy cyson fod yn addas ar gyfer system dreth sy'n gweithredu mewn ffordd fwy effeithlon gan y byddai llai o elfennau amrywiadwy i gyfrif amdanynt wrth ddylunio systemau a phrosesau. Gallai hyn o bosibl leihau'r costau gweinyddu a'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi ardoll ar waith.

Er enghraifft, gellid defnyddio'r un system a phrosesau ym mhob ardal awdurdod lleol yn hytrach na gorfod dylunio amrywiadau gwahanol ar y rhain a'u rhoi ar waith. Mae'r math hwn o fodel yn addas ar gyfer gwasanaeth a gynhelir yn ganolog (er enghraifft, awdurdod lleol neu Awdurdod Cyllid Cymru yn darparu gwasanaeth ar ran awdurdod lleol).

Mae Opsiwn 3 yn addas lle mae'r awdurdod lleol sy'n dewis cyflwyno'r ardoll yn ymgymryd â mwy o'r broses weithredu. Er y byddai awdurdodau lleol yn wynebu costau sefydlu a gweinyddu o dan y ddau opsiwn, ni fyddai'n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â gofynion fframwaith canolog o dan Opsiwn 3 ac felly byddent o bosibl yn gallu teilwra ardoll sy'n fwy costeffeithiol i'w gyflwyno'n lleol.

Awdurdodau lleol:

Drwy'r naill opsiwn a'r llall, mae awdurdodau lleol sy'n dewis cyflwyno ardoll ymwelwyr yn debygol o gael cyllid ychwanegol o refeniw a godir gan ardoll ymwelwyr, gan roi cyfle i ariannu gwariant newydd sy'n ymwneud â thwristiaeth a gwelliannau i'r ardal gyhoeddus. Byddai Opsiwn 2 yn cyfyngu ar brosesau gwneud penderfyniadau lleol drwy unrhyw elfen o glustnodi cyllid. O dan Opsiwn 3, byddai mwy o annibyniaeth i wario'r refeniw a godir a gallai hyn arwain at ganlyniadau mwy ffafriol a mwy o benderfyniadau lleol.

Gan y byddai prosesau adrodd o dan Opsiwn 2 yn rhai safonol, gallai hyn gymryd amser gweinyddol a bod yn llai addas ar gyfer amgylchiadau lleol. Er enghraifft, gellid paratoi adroddiad wedi'i deilwra'n well o dan Opsiwn 3 sy'n gymesur â maint yr economi ymwelwyr leol. O dan Opsiwn 3, byddai awdurdodau lleol yn dal i ddilyn yr

³⁷ Bwriedir cyhoeddi ymgynghoriad ar wahân ar gynllun trwyddedu statudol yn yr hydref, lle y bydd asesiad effaith cychwynnol o gostau a manteision posibl hefyd yn cael ei ddarparu.

arferion presennol a byddai adroddiadau ar yr ardoll yn cael eu cyflwyno drwy'r llwybrau hyn (megis datganiad o gyfrifon blynyddol). Fodd bynnag, gallai arwain at anghysondeb pe bai rhai ardaloedd yn mabwysiadu adroddiad ar wahân ac eraill yn penderfynu peidio â gwneud hynny.

Efallai y bydd y broses o ddylunio ardoll ymwelwyr a'i roi ar waith yn cyd-fynd yn well â dymuniadau lleol drwy roi mwy o hyblygrwydd i wneud penderfyniadau lleol o dan Opsiwn 3. Gallai hyn sicrhau mwy o bŵer lleol i awdurdodau lleol a chynnig mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol o ran dyrannu cyllid ychwanegol. Hefyd, byddai modd dewis pennu cyfraddau amrywiol lleol iawn o fewn ardal awdurdod lleol. O dan Opsiwn 3, gall awdurdodau lleol bennu eu cyfradd eu hunain ar gyfer yr ardoll, a all fod yn uwch neu'n is na'r cyfraddau a bennir mewn fframwaith cenedlaethol o dan Opsiwn 2. Gallai hyn arwain at godi mwy o refeniw a, gyda llai o gyfyngiadau ar y ffordd y dylai refeniw a godir gael ei ddyrannu'n lleol, roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol fodloni blaenoriaethau lleol.

Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i ddeall pa gyfradd a all fod yn briodol i'w hardal ac efallai y bydd amgylchiadau lleol sy'n gofyn am fwy o annibyniaeth. Mae egwyddorion annibyniaeth a gwneud penderfyniadau'n lleol yn bwysig o ran trethi lleol.

Gall y costau yr eir iddynt fod yn uwch neu'n is, yn dibynnu ar y ffordd y caiff y dreth ei dylunio a'i chyflwyno o dan y naill opsiwn neu'r llall. Fodd bynnag, mae Opsiwn 2 yn cynnig cyfle ar gyfer proses weithredu fwy canolog a all sicrhau arbedion effeithlonrwydd gweithredol o bosibl a thrwy hynny rannu costau rhwng awdurdodau lleol sy'n dewis cyflwyno ardoll. Fodd bynnag, gallai Opsiwn 3 arwain at gostau is i'r awdurdod lleol drwy ddylunio a chyflwyno math mwy priodol o gyfradd. Mae cyfleoedd i sicrhau arbedion costeffeithlonrwydd drwy wasanaeth a ddarperir yn ganolog yn is drwy Opsiwn 3 ond efallai y bydd y gost weithredu gyffredinol yn is drwy'r opsiwn hwn i'r awdurdod lleol.

Y gymuned fusnes ehangach:

Gall lefelau uwch o fuddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith lleol fod yn fanteisiol i'r gymuned fusnes ehangach. Gallai refeniw o'r fath helpu i ddatblygu arlwy lleol i ymwelwyr a chynnal a gwella'r gwasanaethau a'r seilwaith annatod sy'n hollbwysig i'r economi leol, ac sy'n denu ymwelwyr i ardal. Felly, gallai'r gymuned fusnes ehangach gael mantais uniongyrchol neu anuniongyrchol, yn dibynnu ar y ffordd y defnyddir refeniw.

Fodd bynnag, gall y grwpiau hyn wynebu costau oherwydd newid posibl yn ymddygiad ymwelwyr sy'n adweithio i brisiau uwch o ganlyniad i ychwanegu ardoll ymwelwyr. Gallai fod effaith negyddol ar y gymuned fusnes ehangach drwy lai o drosiant ac elw, pe bai'r ardoll ymwelwyr yn arwain at lai o wariant ategol gan ymwelwyr neu lai o ymwelwyr. Mae ymddygiad gwariant ymwelwyr mewn perthynas ag ardoll ymwelwyr yn bwnc ymchwil nad yw wedi cael llawer o sylw ac nid oes unrhyw dystiolaeth ddiffiniol ynglŷn ag effeithiau'r math hwn o dreth ar ymddygiad. Gall cyfraddau fod yn uwch neu'n is ar gyfer ardal leol o dan y naill opsiwn neu'r llall ac felly gallai effeithiau ar ymddygiad amrywio.

Trigolion

Gall trigolion gael mantais uniongyrchol neu anuniongyrchol o'r defnydd o ardoll ymwelwyr, yn dibynnu ar y ffordd y defnyddir y refeniw ychwanegol. Er enghraifft, gallai refeniw ychwanegol ariannu mentrau trafnidiaeth lleol, gwella cysylltiadau

rhwng cymunedau a fyddai'n fanteisiol i drigolion ac ymwelwyr. Neu, er enghraifft, gallai refeniw gael ei ddefnyddio i ddatblygu canolfannau gwybodaeth i ymwelwyr a allai gynnig cyfleoedd cyflogaeth newydd, neu ddatblygu a gwarchod safleoedd lleol i ymwelwyr. Mae llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r refeniw mewn ffordd a all fod yn fanteisiol i drigolion, ymwelwyr a busnesau.

Fodd bynnag, gallai fod effaith negyddol ar drigolion, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n ddibynnol iawn ar dwristiaeth am swyddi pe bai gwariant ymwelwyr yn gostwng neu pe bai llai o alw yn arwain at lai o swyddi'n lleol.

Tabl 5: Trosolwg o effaith yr is-opsiynau ynglŷn â math o gyfradd

Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, un o'r paramedrau allweddol wrth ddylunio ardoll ymwelwyr yw'r sail dros y dreth a godir. Fel y trafodwyd, o dan Opsiwn 2, byddai un math o gyfradd ynghyd â fframwaith canolog a fyddai'n fodd i sicrhau rhywfaint o gysondeb yn y ffordd y caiff ardoll ymwelwyr ei ddylunio rhwng awdurdodau lleol sy'n dewis cyflwyno un. Mae Tabl 4 isod yn crynhoi ein barn gychwynnol ar rai o fanteision ac anfantaision pob is-opsiwn o ran eu heffaith debygol o ddarparwyr llety ymwelwyr, yr awdurdod canolog, awdurdodau lleol ac ymwelwyr.

Effeithiau	Cyfradd fesul ystafell/llety fesul noson	Cyfradd fesul person, fesul noson	% o'r tâl am lety (ar gyfradd sylfaenol y tâl a godir am ystafell, nid gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys)	Model cyfunol e.e. cyfradd a godir fesul person, fesul noson ochr yn ochr â chanran o gost y llety.
Darparwyr llety ymwelwyr	• Mae'n symlach i'w weithredu h.y. bydd angen i fusnesau gasglu llai o wybodaeth wrth dderbyn archeb. • Her o ran diffinio beth yw ystafell mewn rhai sectorau (hostelau, cartrefi, llety hunanddarpar, meysydd gwersylla).	• Mae'n fwy cymhleth nag ardoll cyfradd fesul noson – bydd gofyn i fusnesau gasglu gwybodaeth ychwanegol gan ymwelwyr (os nad ydynt yn gwneud hynny eisoes). • Mae gweithgarwch ymgysylltu â busnesau hyd yma wedi awgrymu na allai hyn fod yn ddichonadwy o bosibl mewn llawer o achosion am nad yw'r wybodaeth hon yn hysbys oherwydd yr elfen hunangofnodi i	• Mae cyfradd ar sail canran yn cyfrif am unrhyw amrywiad tymhorol yng nghost llety (sy'n adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y galw). • Efallai y bydd rhai darparwyr yn darparu gwasanaethau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r arhosiad megis bwyd, diod a phecynnau hamdden – felly gall tâl ar sail canran beri anfantais i'r mathau hyn o ddarparwyr os caiff ei gymhwyso at y bil cyfan yn	• Yr anfantais yw y byddai'n fwy cymhleth i ddarparwyr llety ymwelwyr ei weithredu.

Effeithiau	Cyfradd fesul ystafell/llety fesul noson	Cyfradd fesul person, fesul noson	% o'r tâl am lety (ar gyfradd sylfaenol y tâl a godir am ystafell, nid gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys)	Model cyfunol e.e. cyfradd a godir fesul person, fesul noson ochr yn ochr â chanran o gost y llety.
		mewn sy'n rhan o brosesau, e.e. yn y sector hunanddarpar.	hytrach na chostau'r llety yn unig. • Mae darparwyr llety ymwelwyr sy'n codi prisiau uwch yn wynebu beichiau treth uwch yn nhermau arian parod. Efallai y bydd y rhai yn y sector sy'n gweithredu o dan y trothwy TAW yn ei chael hi'n fwy anodd i'w weinyddu.	
Ymwelwyr	• Treth anraddoledig – am nad yw'n gysylltiedig â chost gyffredinol llety. • Mae bandiau costau yn gwrthbwyso hyn i ryw raddau ond maent yn arwain at fwy o gymhlethdod. Gallai olygu bil cymharol uwch i ddefnyddwyr llety cost is.	• Treth anraddoledig – am nad yw'n gysylltiedig â chost gyffredinol llety ymwelwyr. • Mae'n debygol o fod yn symlach i ymwelwyr ei ddeall. • Hunanddatgan: Byddai'n rhaid i ymwelwyr ddatgan faint o unigolion sydd mewn grŵp lle nad oes	• Mae'n rhoi'r sail ar gyfer treth raddoledig sy'n gysylltiedig â'r gallu i dalu. Bydd ymwelwyr sy'n archebu llety ymwelwyr pris rhesymol megis hostelau yn talu llai na'r rhai sy'n dewis gwestai drutach. • Mae'n adlewyrchu tymoroldeb yn y sector llety. Bydd ymwelwyr yn ystod y	• Mantais yr opsiwn hwn yw y byddai cynnwys elfen ganrannol ar gyfer cyfradd fwy blaengynyddol ochr yn ochr â chyfradd fesul person yn rhoi sail ar gyfer cyfradd fwy blaengynyddol. • Mae'n debygol y byddai'r opsiwn hwn

Effeithiau	Cyfradd fesul ystafell/llety fesul noson	Cyfradd fesul person, fesul noson	% o'r tâl am lety (ar gyfradd sylfaenol y tâl a godir am ystafell, nid gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys)	Model cyfunol e.e. cyfradd a godir fesul person, fesul noson ochr yn ochr â chanran o gost y llety.
	• Byddai grŵp o nifer o ddefnyddwyr mewn un ystafell (e.e. teuluoedd â phlant) ar eu mantais o bosibl. • Ni fyddai angen fawr ddim gwybodaeth ychwanegol wrth archebu llety.	prosesau cofnodi i mewn ac allan ffurfiol. • Byddai grŵp o ddefnyddwyr mewn un ystafell (e.e. teuluoedd â phlant) yn talu mwy o gymharu â modelau eraill (oni chaiff esemptiadau cymhleth eu cymhwyso). • Bydd angen mwy o wybodaeth wrth archebu llety o gymharu â'r arfer bresennol.	cyfnodau tawel yn talu llai yn nhermau arian parod i fusnesau sy'n gweithredu'r model prisio hwn.	yn peri dryswch i ymwelwyr.

Effeithiau	Cyfradd fesul ystafell/llety fesul noson	Cyfradd fesul person, fesul noson	% o'r tâl am lety (ar gyfradd sylfaenol y tâl a godir am ystafell, nid gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys)	Model cyfunol e.e. cyfradd a godir fesul person, fesul noson ochr yn ochr â chanran o gost y llety.
Awdurdod treth	Mae'n symlach i'w weinyddu h.y. un gyfradd fyddai'n gymwys, ni waeth sawl unigolyn sy'n aros yn yr ystafell neu'r eiddo.	- Mae'n fodd i dargedu'r dreth yn fwy os bydd gofyniad i roi esemptiadau neu ryddhadau. - Mae'n fwy cymhleth nag ardoll cyfradd fesul noson a bydd unrhyw ffurflenni a gyflwynir i'r awdurdod treth yn cael eu gwirio yn erbyn cofnodion o nifer yr ymwelwyr sy'n aros yn y llety ymwelwyr fesul noson. - Mewn rhai senarios, bydd dibyniaeth ar ymwelwyr yn hunanddatgan faint o unigolion sy'n aros yn y llety ymwelwyr. - Bydd yn anodd ei gorfodi'n effeithiol mewn rhai senarios.	- Efallai y bydd yn gymhleth i'w weinyddu am y bydd angen nodi refeniw o ddefnyddio llety, a gweithgareddau cysoni rhwng rhwng y rhagolygon a'r ffigurau alldro. - Bydd yn haws sicrhau cydymffurfiaeth drwy archwilio refeniw o werthu ystafelloedd. Fodd bynnag, gan fod darparwyr yn amrywio prisiau ystafelloedd yn ystod y flwyddyn, byddai hyn yn gwneud camau gorfodi yn fwy cymhleth ac yn ei gwneud yn fwy anodd deall ble mae ardoll wedi cael ei ordalu neu ei dandalu.	Byddai'n fwy cymhleth i awdurdodau ei weithredu.

Effeithiau	Cyfradd fesul ystafell/llety fesul noson	Cyfradd fesul person, fesul noson	% o'r tâl am lety (ar gyfradd sylfaenol y tâl a godir am ystafell, nid gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys)	Model cyfunol e.e. cyfradd a godir fesul person, fesul noson ochr yn ochr â chanran o gost y llety.
Awdurdodau lleol		Bydd yn haws modelu potensial reffeniw fesul ardal awdurdod lleol.	Bydd reffeniw yn fwy anwadal oherwydd symudiadau o ran cyfraddau defnydd llety a lefel prisiau.	

Model Gweithredu: Opsiynau gweithredu – modelau lleol a chanoledig (dangosol)

Nodir isod yr ystyriaethau gweithredol o ran sut y bydd yr ardoll yn gweithio'n ymarferol, sy'n edrych ar wahanol fodelau posibl sydd ar gael i gyflwyno'r ardoll, o fodel gweithredu cwbl leol i fodel gweithredu cwbl ganoledig.

Mae modelau gweithredu eraill ar gael, er enghraifft, model gweithredu hybrid (h.y. cyfuniad o elfennau lleol a chanoledig). Fodd bynnag, bydd angen ystyried union natur model hybrid ymhellach ar y cyd â rhanddeiliaid cyn y gallwn lunio cynnig manylach.

Wrth i'r broses o ddylunio'r polisi fynd rhagddi drwy ddefnyddio allbynnau o ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, bydd y model gweithredu a ffefrir yn dod yn fwy clir.

Yn y bôn, mae pob treth yn cynnwys yr un elfennau dylunio, y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Cadarnhau'r atebolrwydd (pwy a beth sy'n drethadwy, gan gynnwys pwy a all fod wedi'i esemptio neu pwy ddylai dalu cyfradd ostyngol)
- Cyfrifo'r atebolrwydd a'i dalu (sail y cyfrifiad, pennu cyfraddau, pwy sy'n cyfrifo atebolrwydd, pryd y bydd y dreth yn daladwy, pa mor aml y bydd angen cyflwyno ffurflenni i'r awdurdod treth)
- Cydymffurfiaeth, gorfodi a chadw cofnodion (sut y dylid gorfodi/sicrhau cydymffurfiaeth, pa ofynion cyfreithiol a osodir ar drethdalwyr, gofynion cadw cofnodion, pwerau archwilio ac arolygu i'r awdurdod treth ac ati).
- Apeliadau a chymrodeddu

Mae Tabl 6 yn seiliedig ar yr elfennau dylunio hyn. Mae'n enghreifftiol o ran natur a cheir rhagor o is-opsiynau ym mhob elfen o'r broses o ddylunio a gweithredu'r dreth. Nid yw'r opsiynau a gyflwynir yn gynhwysfawr. Maent yn dangos dewisiadau allweddol o ran dylunio a pholisi.

Tabl 6: Opsiynau gweithredu – modelau lleol a chanoledig (dangosol)

	Model Gweithredu Mwy Lleol	Model Gweithredu Canoledig
Cadarnhau atebolrwydd	- Cofrestriad treth/darparwyr llety ymwelwyr yn cyflwyno ffurflenni hunanasesu i awdurdod lleol	- Cofrestriad treth/darparwyr llety ymwelwyr yn cyflwyno ffurflenni hunanasesu i awdurdod canolog. - Dull mwy canoledig, cymorth lleol cyfyngedig.
Cyfrifo'r atebolrwydd a'i dalu	- Yr awdurdod lleol yn ymdrin â holiadau'n lleol.	- Awdurdod canolog yn ymdrin â holiadau'n ganolog.
	- Cyfrif treth ar wahân ar gyfer pob awdurdod lleol y mae'r busnes yn gweithredu ynddo.	- Un cyfrif treth ar gyfer y busnes yn cael ei ddal yn ganolog. Modd gweld yr holl daliadau a dyledion sy'n ymwneud ag ardoll ymwelwyr yn gyfannol.
	- Cyflwyno ffurflenni ar gyfer sawl eiddo o fewn ardal awdurdod lleol. - Gallai fod yn ddull sydd wedi'i gyfuno â gweithrediadau ardrethi domestig/y dreth gyngor (cyfrifyddu trethi lleol). - Ffurflenni ar wahân yn cael eu dychwelyd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol.	- Ffurflenni yn cael eu cyflwyno ar gyfer sawl eiddo mewn nifer o awdurdodau lleol (un ffurflen)
	- Systemau TG a phrosesau ar wahân yn cael eu datblygu/defnyddio o bosibl. - Gellid defnyddio'r systemau talu sydd eisoes ar waith yn lleol.	- Defnyddio un system TG a phroses.

	Model Gweithredu Mwy Lleol	Model Gweithredu Canoledig
	- Awdurdodau lleol yn dal ac yn cynnal cofnodion (cyfrifyddu trethi lleol).	- Cofnodion yn cael eu dal a'u cynnal yn ganolog.
Cadw cofnodion	- Cofnodion o gydymffurfiaeth a gorfodi'n cael eu cadw'n lleol.	- Cofnodion o gydymffurfiaeth a gorfodi'n cael eu cadw'n ganolog.
Cydymffurfiaeth a gorfodi	- Cydymffurfiaeth a chamau gorfodi gan awdurdod lleol	- Cydymffurfiaeth a gorfodi gan awdurdod canolog
	- Dirwyon/cosbau yn cael eu rhoi'n lleol ac awdurdodau lleol yn cadw cofnodion ar ddyledion a'r camau a gymerwyd.	- Dirwyon/cosbau'n cael eu rhoi'n ganolog.
	- Byddai angen trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol er mwyn tynnu sylw at risgiau cyffredin/trethdalwyr y mae'n werth eu nodi.	- Byddai angen trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol ac awdurdod canolog er mwyn tynnu sylw at risgiau cyffredin/trethdalwyr y mae'n werth eu nodi.
	- Dulliau o reoli a gorfodi dyled ar gael eisoes ym mhob awdurdod lleol (megis drwy ddefnyddio cosbau sifil a phwerau i adennill dyledion)	- Dulliau o reoli a gorfodi dyled ar gael eisoes yn ganolog (megis drwy ddefnyddio cosbau sifil a phwerau i adennill dyledion)
	- Penderfyniadau a blaenoriaethau ynglŷn â rheoli dyled yn cael eu gwneud/pennu'n lleol.	- Penderfyniadau a blaenoriaethau ynglŷn â rheoli dyled yn cael eu gwneud/pennu'n ganolog.
Apeliadau a chymrodeddu	- Mae awdurdodau lleol yn gweithredu proses apelio gwrandawriad cyntaf cyn unrhyw weithrediadau yn y llys.	- proses apelio gwrandawriad cyntaf cyn unrhyw weithrediadau yn y llys a weithredir yn ganolog.

	Model Gweithredu Mwy Lleol	Model Gweithredu Canoledig
Rheoli ariannol	- Gall trefniadau ar gyfer dyrannu refeniw a gesglir gael eu hinteigreiddio'n uniongyrchol â systemau ariannol a phrosesau cyllidebol. - Awdurdodau lleol sy'n dwyn y risg o beidio â chasglu'r dreth.	- Byddai angen sefydlu dulliau o reoli'r llif refeniw i awdurdodau lleol a llunio amcangyfrifon at ddibenion cyllidebol. - Yr awdurdod canolog sy'n dwyn y risg o beidio â chasglu'r dreth.

Effeithiau Ehangach

Asesu'r gystadleuaeth

Mae effaith ardoll ymwelwyr ar gystadleurwydd a phroffidioldeb darparwyr llety ymwelwyr yn dibynnu'n gyntaf ar b'un a yw busnesau yn trosglwyddo'r gost i ymwelwyr, ac yn ail ar ymateb ymddygiadol ymwelwyr i newid ym mhpris llety. Byddai'r graddau y byddai darparwyr llety ymwelwyr yn trosglwyddo cynnydd mewn treth i ddefnyddwyr, neu y gallent wneud hynny, yn dibynnu ar faint o gystadleuaeth sydd rhwng darparwyr llety ymwelwyr a pha mor ddwys ydyw; eu gallu i addasu capasiti'n gyflym; a'r graddau y gall darparwyr llety ymwelwyr a lleoliadau wahaniaethu rhwng ei gilydd, ac felly godi prisiau uwch. Gall y graddau y gellir trosglwyddo cynnydd mewn cost newid dros amser hefyd.

Caiff asesiad effaith manylach ei ddatblygu wrth i'r polisi gael ei ddatblygu a bydd hwn yn ystyried strwythur y farchnad/cyfrannau o'r farchnad, a oes unrhyw effaith wahaniaethol ar BBaChau ac ati, unrhyw risg o greu rhwystrau i ymuno â'r farchnad a maint y costau yr eir iddynt o ganlyniad i gyflwyno a defnyddio ardoll. Cyfeirir at rai o'r pwyntiau hyn mewn rhannau eraill o'r asesiad effaith rheoleiddiol rhannol hwn. Bydd yr asesiad hwn hefyd yn cael ei lywio gan yr ymchwil a gomisiynwyd gennym. Mae hyn yn cynnwys yr adroddiad ar elastigedd pris galw sydd wedi'i grynhoi'n gynharach yn y ddogfen hon a'r dadansoddiad cymharol o systemau trethiant sy'n wynebu sectorau lletygarwch mewn ardaloedd sy'n codi ardollau ymwelwyr, a gaiff ei gyhoeddi'n ddiweddarach ym mis Medi.

Effeithiau eraill

Efallai y bydd llawer o effeithiau cadarnhaol yr ardoll yn deillio o gynhyrchu refeniw, y gall awdurdodau lleol ddewis (yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad) ei wario ar welliannau i arlwy twristiaeth Cymru. Gall y manteision hyn fod yn berthnasol i sawl maes megis prawfesur gwledig, llesiant diwylliannol ac economaidd, neu'r amgylchedd³⁸, yn dibynnu ar y ffordd y mae awdurdodau lleol yn dyrannu'r refeniw. Bydd y cwestiwn ynglŷn â sut y caiff refeniw o'r ardoll ei wario yn cael ei ystyried drwy'r ymgynghoriad, a hefyd a ddylai cyllid gael ei neilltuo.

Mesurau Lliniaru

Nodir amrywiol effeithiau posibl isod. Mae'r trafodaethau hyn yn parhau, ac mae swyddogion yn bwriadu ystyried profiad bywyd pobl yn y sefyllfaoedd hyn ymhellach wrth i'r polisi ddatblygu. Mae effeithiau a nodwyd yn cael eu hystyried yn y broses o ddylunio'r polisi, ond bydd penderfyniadau terfynol ynglŷn â mesurau lliniaru yn cael eu gwneud yn dilyn yr ymgynghoriad, fel y gall swyddogion ystyried unrhyw beth a godir drwy'r ymgynghoriad. Gall y rhain gynnwys esemptiadau neu ad-daliadau ymhlith mesurau eraill.

Dylid nodi y gallai'r defnydd o refeniw wrthbwysio unrhyw effeithiau negyddol posibl a dod â manteision ehangach i ardal. Gall ardaloedd sy'n defnyddio'r math hwn o ardoll ailfuddsoddi'r refeniw mewn gwasanaethau a seilwaith lleol a all arwain at effaith gadarnhaol i'r economi ymwelwyr a thrigolion.

38 Cadwch Gymru'n Ddaclus. 'Tourism Litter – Challenges and Solutions Executive Summary' https://keepwalestidy.cymru/wp-content/uploads/2022/08/Tourism-Litter-Challenges-and-Solutions-Summary_ENGLISH.pdf

Llesiant cymdeithasol

Mae swyddogion wedi ystyried yr effeithiau ar lesiant grwpiau penodol. Ymhlith y grwpiau allweddol y gall yr ardoll ymwelwyr gael effaith anghymesur arnynt mae Sipsiwn a Theithwyr a'r rhai sy'n chwilio am lety dros nos dros dro am resymau nad ydynt ymwneud â thwristiaeth na theithio busnes (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i geiswyr lloches, pobl ddigartref, neu'r rhai sy'n ffoi rhag sefyllfaoedd argyfwng megis cam-drin domestig).

O ran Sipsiwn a Theithwyr, mae swyddogion wedi ymgysylltu â sefydliadau yn y trydydd sector i ddeall yr effaith bosibl yn fanylach. Deellir bod Sipsiwn a Theithwyr yn defnyddio safleoedd anfasnachol yn bennaf ac sy'n wahanol i fathau eraill o safleoedd fel cartrefi mewn parciau neu feysydd carafannau sefydlog. Felly, gallai'r rhain gael eu hesemptio yn ystod y broses ddylunio. Hefyd, bydd yr ardoll ond yn gymwys i arosiadau dros nos y gellir codi tâl amdanynt (llety a osodir yn fasnachol). O ran Sipsiwn a Theithwyr, dim ond ar ddau safle yng Nghymru y codir tâl, ac unwaith eto, gallent gael eu hesemptio yn ystod y broses ddylunio. Felly, disgwylir na fydd fawr ddim effaith ar Sipsiwn a Theithwyr.

Mae swyddogion wedi ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu polisi er mwyn deall yr effeithiau ar unigolion sy'n ceisio llety dros nos dros dro am resymau nad ydynt yn ymwneud â thwristiaeth na theithio busnes. Er enghraifft, pobl ddigartref neu unigolion sy'n ffoi rhag trais neu gam-drin domestig neu sy'n ceisio lloches neu noddfa. Mae'r gweithgarwch ymgysylltu hyd yma wedi canolbwyntio ar ddeall sut y telir am arosiadau o'r fath, a bydd hyn yn bwydo i mewn i'r ystyriaeth o fesurau lliniaru ac esemptiadau.

Mae un grŵp allweddol arall lle y ceir posibilrwydd o effeithiau andwyol yn cynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Mae hwn yn faes a gedwir yn ôl gan Lywodraeth y DU. Llywodraeth y DU sy'n trefnu llety argyfwng i bobl sy'n gwneud cais am loches wrth iddynt aros am benderfyniad neu dros dro i bobl y mae eu cais am loches wedi cael ei wrthod ac sy'n aros i adael y wlad. Gwneir hyn ar y cyd â chonsortia lleol a/neu gontractau â darparwyr llety yn y sector preifat. Weithiau, gall llety argyfwng neu lety dros dro a drefnir o dan yr amgylchiadau hyn fod mewn llety ymwelwyr megis hostelau a llety gwely a brecwast.³⁹ O wybod na fydd gan geiswyr lloches lawer o arian, gallai codi ardoll arnynt gael effaith negyddol sylweddol. Yn y senarios hyn, byddem yn awyddus i sicrhau bod esemptiad clir.

Yn yr un modd, gall y rhai sy'n wynebu digartrefedd o bosibl gael cymorth gan yr awdurdod lleol. Gall yr awdurdod lleol, wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, ddarparu llety dros dro megis llety gwely a brecwast, hostelau neu lochesau⁴⁰. Unwaith eto, gan mai hawl gyfyngedig, i arian cyhoeddus fydd gan yr unigolion hyn, os o gwbl, roeddem am sicrhau na chât unrhyw doll ei godi yn y senarios hyn. Felly, byddem yn cynnig esemptiad i'r rhai sy'n cael eu cartrefu gan awdurdodau lleol wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

³⁹ [Asylum support: What you'll get - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/guidance/asylum-support)

⁴⁰ [Digartrefedd | Cyfraith Cymru \(llyw.cymru\)](https://www.gov.uk/guidance/digartrefedd)

Prawfesur gwledig

Efallai y bydd cyflwyno'r ardoll yn cael effeithiau andwyol ar rai ardaloedd mwy gwledig yng Nghymru. Mae twristiaeth yn sector arallgyfeirio pwysig i'r diwydiant ffermio ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at economïau ardaloedd gwledig. Er enghraifft, mae 16.7% o gyflogeion mewn diwydiannau sy'n ymwneud â thwristiaeth yng Nghonwy⁴¹, sy'n uwch na'r ffigur i Gymru gyfan, sef 11.3%⁴². Fodd bynnag, gall cyflwyno'r ardoll gael effeithiau andwyol ar rai darparwyr llety ymwelwyr mewn ardaloedd gwledig, sy'n fwy tebygol o fod yn fusnesau bach, neu hyd yn oed yn ficro-fusnesau. Efallai y byddai gweinyddu'r ardoll yn feichus i'r busnesau hyn, yn enwedig y rhai sydd â systemau cyfrifyddu llai soffistigedig – gall hyn hyd yn oed achosi risg y byddai busnesau yn gadael y farchnad. Er mwyn lliniaru'r effaith hon, byddai sesiynau hyfforddiant ac arweiniad yn cael eu darparu i helpu darparwyr llety ymwelwyr i weinyddu'r ardoll. Cymysg yw'r ymchwil o ran effaith cyflwyno ardoll ar niferoedd ymwelwyr, fel y'i trafodwyd yn gynharach. Pe bai'r ardoll yn lleihau niferoedd ymwelwyr, gallai hyn leihau cyfraddau defnydd llety, gan effeithio'n negyddol ar hyfywedd y busnesau lleiaf.

Hefyd, mae trafodaethau â'r sector wedi tynnu sylw at effeithiau anghymesur y gyfradd chwyddiant sy'n cynyddu ar hyn o bryd ar gostau busnesau gwledig, gan gynnwys yr effeithiau ehangach megis heriau recriwtio o ystyried natur wledig y mathau hyn o fusnesau, yn ogystal â'r costau teithio ychwanegol. Mae'r sefyllfa hon yn arbennig o ddu i'r rhai sy'n dibynnu ar nwy petrolewm hylifedig ac olew nad ydynt yn destun cap Ofgem ar brisiau. Er enghraifft, mae 75% o eiddo yng Ngheredigion oddi ar y grid⁴³. Mae pobl mewn cymunedau gwledig yn aml yn wynebu costau dyddiol uwch na'r rhai mewn ardaloedd nad ydynt yn wledig⁴⁴. Gall hyn olygu y byddai'r ardoll yn faich ariannol ychwanegol i'r busnesau hyn sydd eisoes yn wynebu costau mewnbwn uwch oherwydd eu natur wledig. At hynny, fel y'i trafodir mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon, efallai y bydd effeithiau dadleoli a all gynyddu'r pwysau ar ardaloedd gwledig nad ydynt yn cymhwyso'r ardoll. Er nad oes modd rhagweld yr amodau economaidd ehangach pan gaiff yr ardoll ei gyflwyno, bydd yr asesiad effaith llawn yn ystyried ffactorau economaidd, ac rydym yn annog pobl i godi pryderon ychwanegol drwy'r ymgynghoriad.

Effeithiau ar iechyd

Mae swyddogion hefyd wedi ystyried effeithiau ar iechyd os cyflwynir deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ymwelwyr. Er na fwriedir i'r polisi effeithio ar iechyd, mae'n debygol y bydd y polisi o bosibl yn cael sawl effaith eilaidd ar benderfyniadau iechyd.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn nodi bod cyflogaeth ac amodau gwaith yn gyfrifol am 7% o gyflyrau iechyd hunangofnodedig a 10% o foddhad â bywyd⁴⁵. Felly, efallai y bydd effeithiau ar iechyd lle mae cyflwyno'r ardoll yn effeithio ar waith. Yn y

⁴¹ https://business.senedd.wales/documents/s500003159/AAB_12_Wales_Tourism_Alliance.html?CT=2

⁴² : [Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2021 | LLYW.CYMRU](#)

⁴³ [Sut mae pwysau costau byw yn effeithio ar gymunedau gwledig? \(senedd.cymru\)](#)

⁴⁴ *Ibid.*

⁴⁵ [Sefydliad Iechyd y Byd/Ewrop. Cyhoeddiadau - Healthy, prosperous lives for all: the European Health Equity Status Report \(2019\)](#)

byrdymor, os bydd ardoll yn arwain at lai o ymwelwyr, gall hyn effeithio ar hyfywedd rhai busnesau twristiaeth a gwneud cyflogaeth yn y sector hwn yn llai sefydlog. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar gyflogaeth ac amodau gwaith, ynghyd â chanlyniadau eilaidd i ieched. Fodd bynnag, yn y tymor hwy, gall ailfuddsoddi refeniw yn y diwydiant twristiaeth ei wneud yn fwy cadarn, a fydd, yn ei dro, yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth neu wella amodau gwaith.

Gall newidiadau yn ymddygiad ymwelwyr hefyd effeithio ar benderfyniadau ieched. Er enghraifft, os oes gwrthanogaeth i ymwelwyr aros dros nos, efallai y bydd cynnydd yn nifer y teithiau dydd, a all gynyddu lefelau llygredd, a fyddai'n cael effaith niweidiol ar ieched y rhai sy'n byw mewn mannau poblogaidd i dwristiaid.

Hefyd, pe bai'r ardoll yn cyfyngu ar fynediad i lety dros nos dros dro, efallai y byddai canlyniadau niweidiol i ieched y rhai sy'n ei geisio. Er enghraifft, pe bai'n rhaid i unigolion gysgu allan o ganlyniad i hyn, gallai fod effeithiau ar ieched corfforol megis anaf⁴⁶, a gallai'r profiad gael effaith negyddol ar ieched meddwl.

Cydraddoldebau

Mae chwiliadau cychwynnol o'r llenyddiaeth wedi cael eu cynnal i ystyried yr effeithiau ar y rhai â'r nodweddion a amlinellwyd yn y Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Ar y cyfan, prin yw'r ymchwil sy'n bodoli i effeithiau cyflwyno ardoll ymwelwyr ar y rhai â nodweddion gwarchodedig. I'r rhai lle y gellid nodi rhywfaint o dystiolaeth, crynhoir y canlyniadau isod. Rydym yn gwahodd barn pobl ar hyn drwy'r ymgynghoriad, a byddwn yn cynnal adolygiad pellach o'r llenyddiaeth, yn ogystal â phrif weithgarwch ymgysylltu ag unigolion, cyn cyhoeddi'r asesiad effaith llawn.

- **Oedran:** mae cysylltiad uniongyrchol rhwng parodrwydd i dalu ac incwm a chyllideb ymwelydd, sydd wedyn yn rhyngweithio â'i oedran⁴⁷. Mae'n bosibl y bydd y rhai o oedran sy'n gysylltiedig ag incwm is fel arfer (er enghraifft, pobl iau) yn llai abl i fforddio cost ychwanegol llety sy'n gysylltiedig â'r ardoll.
- **Rhywedd:** mae cysylltiad uniongyrchol rhwng parodrwydd i dalu ac incwm a chyllideb ymwelydd, sydd wedyn yn rhyngweithio â'i rywedd⁴⁸. Mae'r astudiaeth yn nodi bod dynion yn fwy parod i dalu ardoll ymwelwyr – mae'n bosibl mai'r rheswm dros hyn yw'r rhyngweithio rhwng rhywedd ac incwm lle mae incwm menywod yn is nag incwm dynion ar gyfartaledd⁴⁹.
- **Hil:** efallai y bydd effaith negyddol ar fudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, sy'n cael eu cartrefu mewn llety dros dro, os codir ardoll am y llety. Mae swyddogion hefyd wedi ystyried y posibilrwydd y bydd y polisi yn cael effaith andwyol ar Sipsiwn a Theithwyr, fel y'i trafodir uchod.
- **Crefydd:** Efallai y bydd effaith andwyol ar y rhai nad ydynt yn ymwneud â phrosesau digidol fel rhan o'u ffydd.

⁴⁶ [Health matters: rough sleeping - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

⁴⁷ Durán-Román, J. L., Cárdenas-García, P. J., a Pulido-Fernández, J. I. (2021). Tourists' willingness to pay to improve sustainability and experience at destination. *Journal of Destination Marketing & Management*, 19, 100540.

⁴⁸ Ibid.

⁴⁹ [How much less were women paid in 2019? \(parliament.uk\)](#)

Hawliau plant

Ym mis Mai 2022, ymgysylltodd swyddogion polisi â phlant a phobl ifanc rhwng 12 a 17 oed, gan geisio eu barn ar yr ardoll ymwelwyr drwy drafodaethau ac ymarfer chwarae rôl. Nododd y plant a'r bobl ifanc fod angen i'r ardoll ystyried esemptiadau ac arferion gorau o wledydd eraill. Codwyd pryder ynglŷn ag ymwelwyr a oedd yn llai abl i fforddio'r ardoll, megis y rhai o aelwydydd incwm isel. Roedd y plant a'r bobl ifanc hefyd yn awyddus i weld yr arian yn cael ei wario mewn ffordd dryloyw a'i ailfuddsoddi mewn cymunedau lleol.

Rydym yn disgwyl effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n byw mewn cymunedau y mae twristiaeth yn effeithio arnynt, a hynny oherwydd y refeniw ychwanegol a fyddai'n cael ei gynhyrchu, y gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio i wella'r arlwy i dwristiaid yn eu hardal. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc. Gallai cyflwyno'r ardoll gynyddu cost aros dros nos, gan gynnwys teithiau addysgol neu chwaraeon yng Nghymru os nad ydynt yn cael eu hesemptio. Gall hyn gael effaith anghymesur ar blant a phobl ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, y mae eu teuluoedd eisoes yn ei chael hi'n fwy heriol ariannu teithiau o'r fath.

Mae'r broses ymgysylltu yn parhau, a bydd swyddogion yn ymgysylltu ymhellach â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai y nodwyd y gallai fod effeithiau anghymesur arnynt, megis y rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol neu ofalwyr ifanc.

Llesiant diwylliannol a'r Gymraeg

Mae potensial y bydd cyflwyno'r ardoll yn effeithio ar faint o arian y mae ymwelwyr yn ei wario yng Nghymru. Er enghraifft, efallai y bydd ymwelwyr yn gwrthbwyso cost ychwanegol llety drwy wario llai ar fwyd neu atyniadau. Mae llawer o atyniadau diwylliannol Cymru am ddim. Er enghraifft, mae 101 o'r 130 o safleoedd treftadaeth a reolir gan Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru), yn ogystal â phob un o saith safle Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn cynnig mynediad am ddim. Felly, efallai y bydd unigolion yn dewis ymgymryd â mwy o weithgareddau 'am ddim' neu ymgymryd â gweithgarwch am ddim yn lle un y mae'n rhaid talu amdano ond ansicr yw'r ymatebion ymddygiadol a byddant yn amrywio yn dibynnu ar yr unigolyn.

Gallai'r gost gynyddol beri i ymwelwyr wario llai ar yr arlwy ehangach i dwristiaid, a all leihau'r niferoedd sy'n mynd i atyniadau â thâl. Gall hyn effeithio ar y rhai mewn aelwydydd incwm isel yn arbennig, sydd eisoes yn dweud bod cost yn rhwystro iddynt ymgysylltu â diwylliant⁵⁰. Efallai y bydd effeithiau ar deithiau addysgol, er enghraifft ymweliadau ag Eisteddfodau. Bwriadwn liniaru'r effeithiau hyn drwy sicrhau bod yr ardoll yn gymesur o ran ei ddyluniad, sy'n golygu y bydd ymwelwyr yn annhebygol o weld effaith gyllidol fawr. Mae un model lliniarol posibl a ddefnyddir mewn rhai trefi yn yr Almaen yn cynnig mynediad am ddim i rai atyniadau cyhoeddus a fyddai'n codi tâl mynediad fel arfer.

Fel uchod, disgwylir i effeithiau cadarnhaol yr ardoll ddeillio o'r refeniw a gynhyrchir, y gall awdurdodau lleol ddewis ei wario (yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad) ar welliannau i arlwy twristiaeth Cymru. O ran y Gymraeg, mae cyflwyno'r ardoll yn

⁵⁰ Archwilio'r berthynas rhwng diwylliant a llesiant | LLYW.CYMRU

cysylltu â Thema 3 o *Cymraeg 2050* gan y gallai refeniw helpu i greu a chynnal amodau ffafriol i'r Gymraeg. Gan fod y Gymraeg yn ganolog i frand Cymru, gallai'r refeniw a godir drwy'r ardoll gael ei ddefnyddio i gefnogi'r buddiannau y mae twristiaeth yn eu cynnig i ddiwylliant Cymru. Er enghraifft, mae'r economi ymwelwyr yn cynnig cyfle i bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg weithio yn eu cymunedau, ac yn cynnig cyfle i ymwelwyr ddysgu am ddiwylliant, cerddoriaeth a'r Gymraeg a'u mwynhau. Felly, gallai'r ardoll gefnogi'r diwydiant twristiaeth a chyfleoedd cyflogaeth neu fentrau ymhlith cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Fodd bynnag, fel uchod, mae potensial ar gyfer effeithiau andwyol os bydd y gost ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ardoll yn wrthanogaeth i ymwelwyr fynd ar ymweliadau addysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried ymhellach wrth ddylunio'r polisi, ond mae potensial hefyd ar gyfer effeithiau cadarnhaol ar yr ymweliadau hyn os caiff yr arian ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i gefnogi'r sefydliadau hyn.

Llesiant economaidd

Mae twristiaeth yn ddiwydiant hollbwysig sy'n helpu economi Cymru i ffynnu, gan gyfrif am fwy na 10% o swyddi mewn rhai rhannau o Gymru⁵¹. Gall ailfuddsoddi'r arian a gynhyrchir drwy'r ardoll gan awdurdodau lleol gefnogi'r diwydiant hwn, er enghraifft drwy wella arlwy twristiaeth Cymru neu ansawdd ein hatyniadau presennol. Yn y tymor hwy, gall hyn gryfhau arlwy Cymru a chefnogi'r duedd o dwf mewn niferoedd ymwelwyr sy'n parhau.

Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd rhai effeithiau andwyol o bosibl ar y diwydiant twristiaeth, yn enwedig yn y byrdymor. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r cynrychiolwyr o'r sector, gan gynnwys darparwyr gwahanol fathau o lety, er mwyn deall yr effeithiau hyn. Bydd yr effeithiau allweddol yn debygol o gynnwys costau gweinyddol, ac effeithiau sy'n gysylltiedig â newidiadau yn ymddygiad ymwelwyr (megis newidiadau yn niferoedd ymwelwyr neu wariant ymwelwyr).

Nid yw effeithiau cyflwyno'r ardoll ar ymddygiad wedi'u deall yn dda, gyda phrinder llenyddiaeth eilaidd, a bydd angen rhagor o ymchwil i'w deall yn well. Mae ffactorau unigol sy'n ysgogi ymddygiad yn gymhleth, ac mae pris ond yn un elfen mewn amrywiaeth ehangach o ffactorau ar gyfer penderfyniadau unigolion. Fodd bynnag, cydnabyddir yn gyffredinol fod y galw am dwristiaeth ryngwladol yn ymateb i newidiadau mewn prisiau. Nid oes llawer o ymchwil i elastigeddau marchnadoedd twristiaeth ddomestig, yn enwedig ar lefel y DU ac felly'n mae'r gwaith o ganfod effaith ymddygiadol ardoll yn heriol i'w fodelu. Cyflwynwyd ein hasesiad cychwynnol o elastigedd pris y galw yn seiliedig ar ymchwil annibynnol yn gynharach yn y ddogfen hon.

Ar gyfer y sector cyhoeddus, caiff manteision pwerau ychwanegol i godi refeniw eu cydbwysu yn erbyn cost gweinyddu'r ardoll i awdurdodau lleol – i'w roi ar waith a'i weinyddu. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n archwilio'r costau hyn, ochr yn ochr â'r arweiniad a gaiff ei roi i awdurdodau lleol.

Hefyd efallai y bydd yr effeithiau ar awdurdodau lleol yn wahanol gan y bydd y pwerau yn rhai disgresiynol. Er enghraifft, os bydd awdurdodau lleol cyfagos yn gwneud dewisiadau gwahanol ynghylch a ddylai gyflwyno'r ardoll, efallai y bydd

⁵¹ [Proffil Economi Ymwelwyr Cymru, 2021 | LLYW.CYMRU](#)

twristiaid yn dewis ymweld â lleoliad gwahanol i gyfrif am unrhyw newidiadau i gost yr arhosiad. Gall hyn gynyddu'r galw am lety dros nos mewn awdurdodau lleol nad ydynt yn gweithredu ardoll lle mae cost llety yn is a lleihau'r galw i'r ardaloedd hynny sy'n gweithredu ardoll. O ystyried y caiff yr ardoll ei ddylunio mewn ffordd gymesur, efallai y bydd newid ymddygiadol yn fwy cynnil. Efallai y bydd unigolion yn ymweld â'r un cyrchfan o hyd ond yn archebu llety cost is neu'n newid eu harferion gwario (er mwyn cyfrifo am gyllideb is oherwydd cynnydd mewn costau llety).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r trydydd sector, drwy'r Bwrdd Partneriaeth yn ogystal â sefydliadau unigol. Bydd y gweithgarwch ymgysylltu hwn yn parhau wrth i'r polisi gael ei ddatblygu ymhellach. Bydd yr effeithiau posibl ar sefydliadau yn y trydydd sector yn dibynnu ar y ffordd y mae awdurdodau lleol yn dewis gwario refeniw ychwanegol, ond mae manteision posibl i sefydliadau yn trydydd sector a all gael buddsoddiad. I'r gwrthwyneb, mae potensial i'r ardoll gael effeithiau negyddol ar lety sy'n eiddo i sefydliadau yn y trydydd sector. Er enghraifft, mae'r sefydliad elusenol, Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid, yn berchen ar lety ar ffurf hostelau ieuencid ac yn ei ddarparu ledled Cymru, sy'n cynnig arosiadau dros nos y telir amdanynt. Fel y trafodwyd, efallai y bydd cyflwyno'r ardoll yn cael effeithiau ar ymddygiad ymwelwyr, a all effeithio ar y refeniw a gynhyrchir gan sefydliadau o'r fath yn y trydydd sector.

Llesiant amgylcheddol

Efallai y bydd effeithiau amgylcheddol cadarnhaol yn gysylltiedig â chyflwyno ardoll ymwelwyr, yn dibynnu ar flaenoriaethau gwariant yr awdurdod lleol sy'n codi'r ardoll. Mae grwpiau amgylcheddol fel Cadwch Gymru'n Daclus wedi cydnabod y cyfleoedd a gynigir gan ardoll ymwelwyr⁵². Hefyd, er nad hyn yw'r bwriad, os bydd niferoedd ymwelwyr yn lleihau mewn rhai ardaloedd, gall hyn gael effaith amgylcheddol gadarnhaol, gan leihau llygredd ac allanoldebau negyddol eraill twristiaeth. Fodd bynnag, ein bwriad, fel y'i cadarnhawyd, yw peidio â chyflwyno ardoll sy'n wrthanogaeth i ymwelwyr ddod i Gymru felly byddai unrhyw fantais amgylcheddol yn eilbeth yn hytrach nag yn fwriadol.

Efallai y bydd effeithiau negyddol ar ymddygiad yn deillio o gyflwyno ardoll. Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu y gall ymwelwyr ystyried unrhyw ardoll a gyflwynir yn fath o drwyddedu moesol. Er nad oes fawr ddim tystiolaeth uniongyrchol o hyn⁵³, efallai y bydd ymwelwyr, ar ôl talu ardoll, yn teimlo eu bod wedi eu 'trwyddedu' i ymgymryd ag ymddygiadau sy'n niweidiol i'r amgylchedd megis llygredd a thaflu sbwriel – a all wneud yr ymddygiadau hyn yn fwy cyffredin. At hynny, os bydd cyflwyno'r ardoll yn peri i ymwelwyr ddewis dod am deithiau dydd, gallai'r rhain ddwysáu'r effeithiau amgylcheddol negyddol sy'n gysylltiedig â thwristiaid dydd.

Mae trafodaethau ynglŷn â gweithgareddau i liniaru'r effeithiau a nodwyd yn mynd rhagddynt ac mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried y canllawiau a gaiff eu rhoi i awdurdodau lleol wrth roi'r ardoll ar waith. Caiff awdurdodau lleol eu hannog i ystyried adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth drwy eu prosesau gwneud penderfyniadau ac wrth arfer eu swyddogaethau. Hefyd, mae Deddf Llesiant

52 Cadwch Gymru'n Daclus. 'Tourism Litter – Challenges and Solutions Executive Summary' https://keepwalestidy.cymru/wp-content/uploads/2022/08/Tourism-Litter-Challenges-and-Solutions-Summary_ENGLISH.pdf

53 Ibid.

Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gwneud i awdurdodau lleol ystyried yr hirdymor yn fwy, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau, megis newid yn yr hinsawdd) a gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

Anfantais economaidd-gymdeithasol

Mae potential i unrhyw ardoll a gyflwynir gael effaith anghymesur ar aelwydydd incwm isel, y bydd yr ardoll yn cyfrif am gyfran uwch o'u hincwm. Bydd yr effaith hon yn fwy dwys os caiff yr ardoll ei ddylunio'n wrthgynyddol (er enghraifft treth nad yw'n cyfrif am gost y llety neu nad yw'n gymesur).

Mae parodrwydd i dalu ardoll ymwelwyr yn gysylltiedig â lefel incwm unigolyn⁵⁴, ac felly gall yr effeithiau hyn arwain at newid ymddygiadol. Er enghraifft, efallai y bydd ymwelwyr incwm isel yn dewis cyrchfannau cystadleuol rhatach, neu leihau eu gwariant cysylltiedig er mwyn amsugno cost yr ardoll. Mae trafodaethau ynglŷn â gweithgareddau i liniaru'r effeithiau a nodwyd yn mynd rhagddynt a byddant yn ystyried comisiynu rhagor o ymchwil, ac ymgysylltu â'r rhai â phrofiad bywyd o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Hefyd, fel uchod, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gwneud i awdurdodau lleol ystyried yr hirdymor yn fwy, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau (megis tlodi ac anghydraddoldebau ieuchyd) a gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

Crynodeb

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn sawl cwestiwn ynglŷn â sut y dylid dylunio ardoll ymwelwyr. Nid yw'r iteriad hwn ar yr asesiad effaith rheoleiddiol rhannol yn cyflwyno unrhyw argymhelliad ffurfiol i gymeradwyo unrhyw un o'r opsiynau a gyflwynir ac mae'n cyflwyno opsiynau ar y naill begwn a'r llall. Yn ymarferol, bydd model terfynol yn debygol o gynnwys elfennau o'r ddau opsiwn a gyflwynir yn yr asesiad effaith hwn.

Bydd asesiad effaith wedi'i ddiweddarau yn cyflwyno ystyriaeth fanylach o'r opsiynau a allai fod yn sail i wneud argymhelliad – bydd yr opsiynau hyn yn adlewyrchu adborth a gesglir drwy'r ymgynghoriad.

54 Durán-Román, J. L., Cárdenas-García, P. J., a Pulido-Fernández, J. I. (2021). Tourists' willingness to pay to improve sustainability and experience at destination. *Journal of Destination Marketing & Management*, 19, 100540.

Atodiad A – Tabl o Gymaryddion Rhyngwladol

Mae'r tabl isod yn crynhoi cyfraddau'r dreth defnydd llety ymhlith aelod-wladwriaethau'r UE, gydag enghreifftiau o rai trethi dinas o fewn aelod-wladwriaethau. Mae'r tabl yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan Gymdeithas Twristiaeth Ewrop yn 2019 ac a gyhoeddwyd fel rhan o ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar ei chynigion ar gyfer Ardoll Ymwelwyr Byrharhosol. At ddibenion enghreifftiol yn unig y rhoddir yr holl wybodaeth hon⁵⁵.

Gwlad / Dinas	Sylfaen Drethu	Cyfradd Dreth (yn fras)	Cyfradd TAW ar Lety Gwesty	Nodiadau
Awstria	Fesul person, fesul noson yn y rhan fwyaf o achosion; % o gyfradd yr ystafell.	€0.15 - €3.80	10%	Yn amrywiol yn ôl talaith. Mae esemptiadau yn amrywio yn ôl talaith ac oedran y plentyn e.e., Salzburg: plant o dan 15 oed, ymwelwyr busnes â digwyddiadau; Tyrol: plant o dan 15 oed, pobl ifanc o dan 18 oed sy'n aros mewn hostelau ieuencid.
Awstria, e.e. Fienna	% o gyfradd yr ystafell (heb gynnwys TAW o 10%, brecwast, didyniad fflat o 11%)	3.2%	10%	Esemptiadau i blant a phobl ifanc o dan oed, myfyrwyr yn ysgolion technegol Prifysgolion Fienna; ac arosiadau am fwy na 3 mis. Hostelau ieuencid.
Gwlad Belg	Fesul person, fesul noson fel arfer	€0.53 – tua €4.24	6%	Yn amrywio yn ôl dinas. Mae esemptiadau yn amrywio: e.e. Antwerp: Plant

⁵⁵ <https://www.gov.scot/publications/consultation-principles-local-discretionary-transient-visitor-levy-tourist-tax/pages/9/>

Gwlad / Dinas	Sylfaen Drethu	Cyfradd Dreth (yn fras)	Cyfradd TAW ar Lety Gwesty	Nodiadau
				dan 12 oed; Ghent: Plant o dan 18 oed a Hostelau Ieuenctid.
Gwlad Belg, e.e. Brwsel Treth Dwristiaeth	Fesul uned/ystafell fesul noson	€3.00 - €4.24	6%	
Bwlgaria	Fesul person fesul noson, yn seiliedig ar radd sêr a lleoliad y llety.	€0.10 - €1.53 [€brasamcan]	9%	Yn amrywio yn ôl rhanbarth dinesig. Pennir y gyfradd yn lleol o fewn band a bennir gan y llywodraeth genedlaethol. Os yw'r llety mewn cyrchfan i dwristiaid, dim ond ar y noson gyntaf y cymhwysir y dreth. Defnyddir yr arian a godir at ddibenion buddsoddi mewn twristiaeth.
Croatia	Fesul person, fesul noson, yn seiliedig ar radd/categori'r llety, a'r tymor.	€0.27 - €1.35 [€brasamcan]	13%	Yn amrywio yn ôl rhanbarth dinesig; amrywiadau tymhorol. Cedwir y refeniw gan fyrddau twristiaeth lleol i ariannu eu gweithgareddau. Pris gostyngol o 50% i bobl ifanc 12-18 oed, hostelau ieuenctid i oedolion hyd at 29 oed, neu aelodau o sefydliadau

Gwlad / Dinas	Sylfaen Drethu	Cyfradd Dreth (yn fras)	Cyfradd TAW ar Lety Gwesty	Nodiadau
				ieuenctid rhyngwladol. Esemptiadau i blant o dan 12 oed, teithiau ysgol, pobl anabl a'u gofalwr.
Tsiecia	Fesul person, fesul noson	Hyd at €1	15%	Yn amrywio yn ôl lleoliad.
Tsiecia, e.e. Prâg	Fesul person, fesul dydd (heb gynnwys y diwrnod cyrraedd)	€0.58 [€brasamcan]	15%	Esemptiadau: Plant a phobl ifanc o dan 18 oed, pobl dros 70 oed, teithwyr busnes, pobl anabl, hostelau ieuenctid.
Ffrainc	Fesul person, fesul noson, yn seiliedig ar radd sêr y gwesty	€0.20 - €4.00 heb gynnwys y dreth gyngor adrannol o 10% (ac ym Mharis y Dreth Ranbarthol o 15%).	10%	Yn amrywio yn ôl rhanbarth dinesig a all benderfynu cymhwyso'r dreth ar sail nifer gwirioneddol nosweithiau ymwelwyr neu gymhwyso cyfradd fflat sy'n ddyledus gan y darparwr llety ymwelwyr ar sail capasiti. Caiff reffeniw ei neilltuo i'w ddefnyddio ar gyfer treuliau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.
Ffrainc, e.e. Paris Treth Defnydd Llety	Fesul person, fesul noson, yn seiliedig ar radd sêr y gwesty	€1 (1 seren) €1.13 (2 seren) €1.88 (3 seren) €2.88 (4 seren)	10%	Mae'n cynnwys treth adrannol o 10%, a threth ranbarthol Paris o 15%. Esemptiadau i blant a phobl ifanc

Gwlad / Dinas	Sylfaen Drethu	Cyfradd Dreth (yn fras)	Cyfradd TAW ar Lety Gwesty	Nodiadau
		€3.75 (5 seren) (y gyfradd ar gyfer gwestai 5 seren "Palas" yw €5 fesul noson.)		o dan 18 oed, y rhai mewn llety brys neu dros dro, gweithwyr tymhorol, y rhai mewn eiddo sydd â rhent islaw cyfradd a bennir gan y rhanbarth dinesig.
Yr Almaen	Naill ai fesul person, fel noson; neu'n seiliedig ar gyfradd yr ystafell.	€0.25 - €5.00 neu 5 - 7.5% o gyfradd yr ystafell	7%	Yn amrywio yn ôl dinas. Mae Baden Baden yn amrywio o fewn parthau dinesig. Mewn rhai dinasoedd, cymhwysir TAW ar ben y gyfradd hon. Mewn rhai trefi sba, mae hyn yn rhoi mynediad i gyfleusterau penodol (sbas, atyniadau, trafndiaeth). Nid yw Munich yn codi treth dwristiaeth.
Yr Almaen, e.e. Berlin Treth Dinas	% o gyfradd yr ystafell (cost net heb gynnwys TAW o 7% a brecwast); hyd at 21 noson.	5% o gyfradd yr ystafell	7%	Esemptiadau: Teithwyr busnes.
Yr Almaen, e.e. Hambwrg Treth Diwylliant a Thwristiaeth	Fesul person fesul noson yn seiliedig ar daliad net am yr arhosiad	€0 (hyd at €10) €0.5 (€10.01 - €25) €1 (€25.01 - €50)	7%	Mae teithwyr busnes wedi'u hesemptio. Buddsoddir refeniw mewn prosiectau twristiaeth,

Gwlad / Dinas	Sylfaen Drethu	Cyfradd Dreth (yn fras)	Cyfradd TAW ar Lety Gwesty	Nodiadau
	mewn bandiau €. Ar gyfer pob €50 ychwanegol, mae'r gyfradd yn cynyddu un Ewro bob tro.	€2 (€50.01 - €100) €3 (€100.01 - €150) €4 (€150.01 - €200)		diwylliannol a chwaraeon.
Gwlad Groeg	Fesul ystafell, fesul noson. Yn amrywio yn ôl gradd sêr.	€0.50 (1 seren) €0.50 (2 seren) €1.50 (3 seren) €3.00 (4 seren) €4.00 (5 seren)	13%	Treth genedlaethol. Esemptiadau: hostelau ieuencid.
Hwngari	Fesul person, fesul noson; % o'r arhosiad (net); % o'r arhosiad (gros)	Hyd at €1.57 fesul person, fesul noson; neu hyd at 4% o gyfradd yr ystafell. [€brasamcan]	18%	Yn amrywio yn ôl dinas. Gall amrywio yn ôl ardal o fewn dinasoedd
Hwngari, e.e. Budapest	Fesul person, fesul noson; % o'r arhosiad (net); % o'r arhosiad (gros)	4% o gyfradd yr ystafell (net), 4% o gyfradd yr ystafell (gros), neu Fesul person €0.88 - €1.41 [€brasamcan]		Esemptiadau: plant a phobl ifanc o dan 18 oed; ac mewn rhai ardaloedd pobl dros 70 oed.
Yr Eidal	Fesul person, fesul noson; cost yr arhosiad fesul person, fesul noson.	Hyd at €5, ac eithrio yn Fenis a Rhufain lle y caniateir codi hyd at €10.	10%	Yn amrywio yn ôl dinas. Yn amrywio yn ôl gradd sêr. Yn amrywio yn ôl uchafswm nifer y

Gwlad / Dinas	Sylfaen Drethu	Cyfradd Dreth (yn fras)	Cyfradd TAW ar Lety Gwesty	Nodiadau
		Yr uchafswm a godir ar hyn o bryd €7 (Rhufain). Mae taliadau 'cost yr arhosiad' a godir yn dod o dan dri band pris.		nosweithiau dilynol (e.e. Matera 2 noson; Milan 14 noson). Yn amrywio yn ôl y tymor.
Yr Eidal, e.e. Rhufain Treth Dinas	Fesul person, fesul noson hyd at uchafswm o 10 noson, yn seiliedig ar radd sêr; hyd at 5 noson mewn meysydd gwerysyla	€3 - €7	10%	Esemptiadau ar gyfer hostelaau, trigolion Rhufain, plant o dan 10 oed, unrhyw un sy'n hebrwng rhywun am resymau iechyd, yr heddlu a'r lluoedd arfog, 1 gyrrwr coets ac 1 arweinydd taith ar gyfer grwpiau o 23 o aelodau.
Yr Eidal, e.e. Fenis Treth Dinas	Fesul person, fesul noson hyd at 5 noson ddilynol, yn seiliedig ar y math o lety, gradd sêr a rhan o'r ddinas.	€0.70 - €5	10%	Gostyngiadau ym mis Ionawr, pobl ifanc 10-16 oed (50%); ynysoedd (20%, neu 10% yn achos llety 5 seren), ar y tir mawr (30%). Esemptiadau i blant o dan 10 oed, pobl anabl, 1 gyrrwr coets ac 1 arweinydd taith ar gyfer grwpiau o 25 o aelodau.
Yr Eidal, e.e. Bologna	Fesul person, fesul noson; gan gynnwys	€3 (cyfanswm o €1-€70.99)	10%	

Gwlad / Dinas	Sylfaen Drethu	Cyfradd Dreth (yn fras)	Cyfradd TAW ar Lety Gwesty	Nodiadau
	brecwast, yn glir o TAW o 10%	€4 (cyfanswm o €71-€120.99) €5 (cyfanswm o €121+)		
Lithwania	Fesul person, fesul noson	€0.30- €1.00	9%	Yn amrywio yn ôl dinas.
Lithwania, e.e. Palanga	Fesul person, fesul noson	€1	9%	Wedi'i neilltuo i ariannu gwelliannau i seilwaith y ddinas a marchnata twristiaeth.
Lithwania, e.e. Filniws	Fesul person, fesul noson	€1	9%	Esemptiadau: Plant a phobl ifanc o dan 18 oed, myfyrwyr, pobl anabl.
Malta	Fesul person, fesul noson, hyd at 10 noson.	€0.50	7%	Dim amrywiadau rhanbarthol. Defnyddir yr enillion i gynnal a chadw ardaloedd i dwristiaid.
Yr Iseldiroedd	Fesul person, fesul noson; % o gyfradd yr ystafell. Yn seiliedig ar radd y llety a'r math o lety.	€0.55 - €5.75 neu d hyd at 7% y gyfradd yr ystafell.	9%	Yn amrywio yn ôl rhanbarth dinesig.
Yr Iseldiroedd, e.e. Amsterdam Treth Dinas	% o gyfradd yr ystafell	7% o gyfradd yr ystafell (heb gynnwys brecwast)	9%	Yn daladwy gan y rhai nad ydynt yn drigolion Amsterdam. Hefyd codir €8 fesul dydd, fesul person ar gyfer teithwyr llongau mordeithio a llongau teithio

Gwlad / Dinas	Sylfaen Drethu	Cyfradd Dreth (yn fras)	Cyfradd TAW ar Lety Gwesty	Nodiadau
				afon; a Threth Adloniant o €0.66 fesul teithiwr ar gwch camlas neu daith ymwelwyr. Esemptiadau: gofalwyr.
Gwlad Pŵyl	Fesul person, fesul diwrnod dechrau (os yw'r arhosiad dros 24 awr); a godir naill ai fel ffi leol neu ffi sba.	Hyd at €0.52 (Ffi leol) Hyd at €1.03 (Ffi sba) [€brasamcan]	8%	Yn amrywio yn ôl dinas. Mae'r esemptiadau yn cynnwys teithiau ysgol, pobl ddall a'u tywyswyr. Ni chodir ffi leol os yw'r ymwelydd yn talu ffi sba'r rhanbarth dinesig. Rhanbarthau dinesig sy'n penderfynu ar y gyfradd leol ond mae cyfraddau wedi'u capio'n genedlaethol.
Portiwgal	Fesul person, fesul noson; uchafswm nosweithiau yn amrywio e.e. Porto a Lisboa (Lisbon) 7 noson, Sintra 3 noson.	€1 - €2	6%	Yn amrywio yn ôl rhanbarth dinesig. Gostyngiadau: e.e. yn Cascais, mae'r ymwelydd yn cael mynediad i'r amgueddfa neu drafnidiaeth am ddim yn gyfnewid am hynny.
Portiwgal, e.e. Lisboa Treth Dwristiaeth Rhanbarth Dinesig	Fesul, person, fesul noson, hyd at 7 noson.	€2	6%	Esemptiadau i blant o dan 13 oed a'r rhai sy'n aros am resymau meddygol ynghyd ag un noson

Gwlad / Dinas	Sylfaen Drethu	Cyfradd Dreth (yn fras)	Cyfradd TAW ar Lety Gwesty	Nodiadau
				ychwanegol (ac i gydymaith).
Rwmania	% o gyfradd yr ystafell (gan gynnwys brecwast ond heb gynnwys TAW o 5%)	1%	5%	Yn amrywio yn ôl rhanbarth dinesig. Defnyddir yr arian a godir at ddibenion hyrwyddo twristiaeth. Os yw'r llety mewn cyrchfan i dwristiaid, dim ond ar y noson gyntaf y codir y dreth. Esemptiadau: plant a phobl ifanc o dan 18 oed, pobl anabl, myfyrwyr, pensiynwyr.
Slofacia	Fesul person, fesul noson	€0.50 - €1.70	10%	Yn amrywio yn ôl rhanbarth dinesig.
Slofacia, e.e. Bratislafa	Fesul person, fesul noson.	€1.70	10%	Esemptiadau: plant a phobl ifanc o dan 18 oed, pobl dros 70 oed, myfyrwyr llawn amser o dan 26 oed, person anabl a'i ofalwr.
Slofenia	Fesul ystafell, fesul noson.	Hyd at €2.50, ynghyd â threth hyrwyddo orfodol ychwanegol o 25%.	9.5%	Yn amrywio yn ôl rhanbarthau dinesig. Mae 43 o ranbarthau dinesig wedi penderfynu peidio â chodi treth dwristiaeth.
Slofenia, e.e. Bled	Fesul person, fesul noson	€3.13	9.5%	Gostyngiadau o 50% i blant a phobl ifanc 7-18 oed, hostelau ieuenctid,

Gwlad / Dinas	Sylfaen Drethu	Cyfradd Dreth (yn fras)	Cyfradd TAW ar Lety Gwesty	Nodiadau
				meysydd gwerysyla. Esemptiadau i blant o dan 7 oed.
Sbaen (Catalonia) DS: Mae treth dwristiaeth yn Sbaen ond yn gymwys yng Nghatalonia ac Ynysoedd Baleares	Fesul person, fesul noson, hyd at 7 noson. Yn seiliedig ar y categori o lety.	€0.45 - €2.25	10%	Yn amrywio rhwng Barcelona a 'gweddill Catalonia'. Buddsoddir yr arian mewn seilwaith a gweithgarwch hyrwyddo twristiaeth. Esemptiadau i blant a phobl ifanc o dan 17 oed, gwyliau IMSERSO, Force Majeure.
Sblaen (Ynysoedd Baleares)	Fesul person, fesul noson, gostyngiad o 50% ar ôl 8 noson. Yn seiliedig ar y categori o lety, a'r cyfnod prysur/tawel.	€0.50 - €4.00	10%	Esemptiadau i blant o dan 16 oed. Caiff yr arian a godir, a elwir yn ITS (Ecodreth), ei wario ar brosiectau twristiaeth gynaliadwy.

Atodiad B - Ymgysylltu ynglŷn â'r Ardoll Ymwelwyr

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu ar raddfa helaeth dros sawl mis cyn y broses ymgynghori er mwyn deall y gwahanol safbwyntiau a llywio'r broses o ddylunio ardoll i Gymru a'i gwmpas.

Noder: Nid yw cyfarfodydd â swyddogion na Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn gyfystyr â chymeradwyo neu gytuno ar y cynigion polisi arfaethedig. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhai a roddodd yr amser ac a wnaeth yr ymdrech i roi adborth ar ein cynigion.

Mae'r gweithgarwch ymgysylltu allanol wedi cynnwys y sefydliadau a'r grwpiau canlynol:

Y diwydiant twristiaeth:

- Dros 20 o ddarparwyr llety mewn Grŵp Cyfeirio Busnes Ardoll Ymwelwyr.
- Fforymau Twristiaeth Rhanbarthol
- Fforwm yr Economi Ymwelwyr
- Sefydliadau twristiaeth a lletygarwch eraill megis Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain a Chymdeithas Cwrw a Thafarndai Cymru
- Cynghair Twristiaeth Cymru
- Cymdeithas Llety Byrdymor y DU
- Fforwm Eryri

Awdurdodau Lleol:

- Gweithdai Dylunio Ardoll Ymwelwyr a oedd yn cynnwys swyddogion twristiaeth, datblygu economaidd a chyllid awdurdodau lleol
- Prif Swyddogion Gweithredol Awdurdodau Lleol
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Tai CLILC
- Cyngor Sir Gwynedd
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Dinas a Sir Caerdydd
- Cyngor Sir Penfro
- Trysorwyr Awdurdodau Lleol De Cymru
- Parciau Cenedlaethol Cymru

Llywodraethau ac awdurdodau treth:

- Llywodraeth yr Alban
- Awdurdod Cyllid Cymru
- Dinas Amsterdam
- Llywodraeth Catalonia
- Llywodraeth Seland Newydd
- Llywodraeth Ynysoedd Baleares
- Llywodraeth Quebec
- Dinas Philadelphia

Y Byd Academaidd:

- Alma Economics
- Ysgol Fusnes Prifysgol Bangor

Y Trydydd Sector:

- Grŵp Partneriaeth y Trydydd Sector (gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, yn cynnwys cynrychiolwyr o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru).
- Plant yng Nghymru
- Cadwch Gymru'n Daclus
- TGP Cymru - Teithio Ymlaen Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr Cymru
- Cymorth Cymru (corff cynrychioliadol darparwyr gwasanaethau digartrefedd, tai a chymorth yng Nghymru)

Arall:

- Llwyfannau archebu llety ar-lein yn y DU (gan gynnwys AirBnB, Expedia)
- Sefydliad Siartredig Trethiant

Atodiad C – Rhestr o ffynonellau

1. 'Rhaglen Lywodraethu' Llywodraeth Cymru, ar gael yn: [Llywodraeth Cymru – Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad](#)
2. [Y Cytundeb Cydweithio \(llyw.cymru\)](#)
3. Sefydliad Twristiaeth y Byd, y Cenhedloedd Unedig – 'Tourism that takes full account of its current and future economic, social and environmental impacts, addressing the needs of visitors, the industry, the environment and host communities' sydd ar gael yn: [Sustainable development | UNWTO](#)
4. Llywodraeth Cymru, 2019, Perfformiad Twristiaeth yng Nghymru, rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2019 (llyw.cymru), ar gael yn: [Perfformiad Twristiaeth yng Nghymru, rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2019 \(llyw.cymru\)](#)
5. Adolygiad 2019 Cymdeithas Twristiaeth Ewrop – 'European tourism taxes calls for destinations to recognise the value of the visitor economy and risk to competitiveness' sydd ar gael yn: [Adolygiad 2019 ETOA o Dreth Dwristiaeth](#)
6. Cymdeithas Llywodraeth Leol – *A Tourist Levy* ar gael yn: [Tourism Tax Briefing](#)
7. Swyddfa Ystadegau Gwladol. – amcangyfrifon o dueddiadau o ran teithio: 'Overseas residents in the UK' sydd ar gael yn: [ONS Travel Trends Estimates](#)
8. Y Comisiwn Ewropeaidd – 'The Impact of Taxes on the Competitiveness of European Tourism' sydd ar gael yn: [EUROPA Report](#)
9. Llywodraeth Cymru, Datganiadau ystadegau swyddogol ac ymchwil am Gymru, ar gael yn: [Ystadegau ac ymchwil | LLYW.CYMRU](#)
10. Llywodraeth Cymru, 2020, 'Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020-2025, Crynodeb o'r Sail Dystiolaeth', ar gael yn: [39441 Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020-2025, Crynodeb o'r Sail Dystiolaeth \(llyw.cymru\)](#)
11. Gwybodaeth ETIAS, 'How Brexit Impacts Europe's Tourist Industry' sydd ar gael yn: [Consequences of Brexit for Europe's Tourist Industry](#)
12. Telegraph – 'Welcome to 2020, the year of the tourist tax' sydd ar gael yn: [Welcome to 2020, the year of the tourist tax](#)
13. Cambridge Dictionary, 2022, 'Meaning of levy in English', sydd ar gael yn: [TAX | meaning in the Cambridge English Dictionary](#)
14. Cambridge Dictionary, 2022, 'Meaning of levy in English', sydd ar gael yn: [LEVY | meaning in the Cambridge English Dictionary](#)
15. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – 'Hospitality businesses are most likely to be struggling to fill vacancies' sydd ar gael yn: [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)
16. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. – 'Business insights and impact on the UK economy' sydd ar gael yn: [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)
17. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – 'Vacancies and jobs in the UK' sydd ar gael yn: [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)
18. Siambrau Masnach Prydain – '3 in 4 Firms Raising Prices as Chancellor warned of 'Cost of Doing Business Crisis' sydd ar gael yn: [3 in 4 Firms Raising Prices as Chancellor warned of 'Cost of Doing Business Crisis' \(britishchambers.org.uk\)](#)
19. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – 'Vacancies by Industries' sydd ar gael yn: [Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)
20. Senedd Cymru – [Adroddiad twristiaeth Tachwedd 2014](#)
21. Oxfords Economics – 'Tourism: Jobs and Growth the Economic contribution of the Tourism economy in Wales, sydd ar gael yn: [Tourism Jobs and Growth 2013.pdf \(visitbritain.org\)](#)
22. Cadwch Gymru'n Daclus, 2022, 'Tourism Litter – Challenges and Solutions Executive Summary' ar gael yn https://keepwalestidy.cymru/wp-content/uploads/2022/08/Tourism-Litter-Challenges-and-Solutions-Summary_ENGLISH.pdf

23. Llywodraeth y DU – ‘Asylum support’ sydd ar gael yn: [Asylum support: What you'll get - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)
24. Llywodraeth Cymru, 2022, ‘Digartrefedd’, ar gael yn: [Digartrefedd | Cyfraith Cymru \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)
25. Sefydliad Iechyd y Byd – ‘European programme of work’ sydd ar gael yn: [Sefydliad Iechyd y Byd/Ewrop | Cyhoeddiadau - Healthy, prosperous lives for all: the European Health Equity Status Report \(2019\)](https://www.euro.who.int/en/health-topics/euro-topics/health-equity/status-report-2019)
26. Llywodraeth y DU – ‘Health matters: rough sleeping’ sydd ar gael yn: [Health matters: rough sleeping - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)
27. Senedd y DU - Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin: ‘How much less were women paid in 2019?’ sydd ar gael yn: [How much less were women paid in 2019? \(parliament.uk\)](https://www.parliament.uk)
28. Llywodraeth Cymru, 2022 ‘Archwilio'r berthynas rhwng diwylliant a llesiant’ sydd ar gael yn: [Archwilio'r berthynas rhwng diwylliant a llesiant | LLYW.CYMRU](https://llyw.cymru)
29. Llywodraeth Cymru, ‘Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2021’ sydd ar gael yn: [Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2021 | LLYW.CYMRU](https://llyw.cymru)
30. Durán-Román, J. L., Cárdenas-García, P. J., a Pulido-Fernández, J. I. (2021). Tourists' willingness to pay to improve sustainability and experience at destination. Journal of Destination Marketing & Management, 19, 100540. Ar gael yn [Tourists' willingness to pay to improve sustainability and experience at destination | Elsevier Enhanced Reader](https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S1872793221000540)
31. Warberg, J., Fromeyer, B., Koch, J., Gerdt, S.-O. a Schewe, G. (2021). Voluntary carbon offsetting and consumer choices for environmentally critical products - An experimental study, Business strategy and the environment, sydd ar gael yn [Voluntary carbon offsetting and consumer choices for environmentally critical products](https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0959632321000540)
32. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Ymchwiliad i Ddyfodol Polisiâu Amaethyddol a Datblygu Gwledig yng Nghymru, Tystiolaeth gan Gynghrair Twristiaeth Cymru, sydd ar gael yn: [Cynghrair Twristiaeth Cymru](https://llyw.cymru)
33. Llywodraeth Cymru, 2021, Proffil Economi Ymwelwyr Cymru, ar gael yn [Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2021 | LLYW.CYMRU](https://llyw.cymru)
34. Ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar Ardoll Ymwelwyr Byrharhosol: Annex B – Occupancy Taxes in selected EU Member States - <https://www.gov.scot/publications/consultation-principles-local-discretionary-transient-visitor-levy-tourist-tax/pages/9/>
35. Isobel Pagendam, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru, [Sut mae pwysau costau byw yn effeithio ar gymunedau gwledig? \(senedd.wales\)](https://www.senedd.wales), 19/07/22